

Codi arian at Elusen Ymchwil Cancr



Mewn oes pan fo'n hawdd beirniadu ein hieuenctid – a hynny'n digwydd yn rheolaidd ym mhapurau newyddion gogledd Cymru gyda sylw beunyddiol i or-yrro, gor-yfed a defnydd o gyffuriau ymysg pobl ifanc, braf yw cael atgoffa darllenwyr fod ochr arall i bob ceiniog.

Yn ddiweddar fe gwblhaodd criw o chweched dosbarth Ysgol Brynrefail y "Race For Life" yng Nghaernarfon. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol ar y Foryd ers blynnyddoedd bellach, ac er ei bod yn bosibl 'rasio' ar y cwrs, mae'r mwyafrif helaeth yn ei gwblhau gan loncian, cerdded, mewn cadeiriau olwyn neu'n gwthio pram.

Llongyfarchiadau haeddiannol felly i'r criw am gwblhau'r 'ras', a llwyddo i godi dros fil o bunnau tuag at yr elusen.

Yn y llun o bedwar mae Robin Pritchard a Lewis McGee, gyda'u ffrindiau Ryan Jones a Ben Rowlands. Yn y llun torfol gwelir Chloe Worbey, Shannen Roberts, Holy Parrry, Efa Roberts, Alaw Jones, Awel Ellis, Iestyn Price, Cara Thomas, Ryan Jones, Lewis McGee, Ben Rowlands, a Robin Pritchard.

A siawns na chawn gyfle y mis nesaf i longyfarch mwy o ieuenctid y fro yn dilyn llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 477
Mehefin 2019

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn
Gorffennaf/Awst

Copi i law
Sul 16 Mehefin

Bwndelu
Gwener 28 Mehefin

Ble
Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

TRISTWCH!

Fel un a fagwyd yn ardal Tan y Coed, Llanrug, roeddwn yn falch iawn o gael ymuno â thaith gerdded o gwmpas yr ardal dan arweiniad medrus Gareth Roberts o Fenter Fachwen ar y 10fed o Fai. Roedd yn chwith gennyf weld cyflwr un bwthyn, Tan y Coed Uchaf, lle cofiwn fynd i chwarae, wedi mynd yn adfail a chyflwr y llwybr cyhoeddus sy'n pasio'r lle. Ond, roedd gwaeth i ddod (Mai 16) pan geisiais ymweld â'r safle ar hyd llwybr arall.

Cychwyn cerdded heibio Ysgoldy Capel Tan y Coed ac wrth agosau at Tan y Coed Isaf gweld arwydd 'Private' o'm blaen, a rhuthrodd ci am fy nghoesau. Daeth gŵr i'r golwg a dweud nad oedd gennyf hawl i gerdded y ffordd honno. Dywedais wrtho fy mod wedi dilyn y llwybr ers o leiaf 75 o flynyddoedd. Wnes i ddim ildio, a cherddais ymlaen.

Wrth yr ail dŷ, Tan y Coed Canol, daeth gwraig i'r golwg gyda'r un gân - tir preifat. Na wnes i ddim ildio a cherdded heibio ochr arall y tŷ, trwy gae a thros ffens, er iddi geisio fy mherswadio i droi'n ôl a theithio'r holl ffordd heibio Becws Bryngwyn i gyfeiriad Bryn Bras, heibio Bonc i gyrraedd y fan! Ar y ffordd yn ôl, roedd y ci yn fy nisgwyl eto, ond methodd ei ddannedd â chyffwrdd!

Roedd fy nghefnder, Arfon a'i wraig Katie yn, arfer byw yn y tŷ ble roedd y ci (Tan y Coed Isaf ond 'Bwthyn' bryd hynny), ffrind yn Tan y Coed Uchaf, chwaer Taid yn Nhan y Bryn, chwaer fy Nhad yn Fron Olau. Felly, roeddwn yn defnyddio'r llwybr yma'n aml iawn yn ystod fy mhlentyndod wrth ymweld â'r teulu.

Rydw i'n ymwybodol erbyn hyn nad yw'r llwybr yn ymddangos ar fap llwybrau. Er hynny, credaf y dylai fod. Oes esboniad?

Oes yna rai o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa wedi arfer defnyddio'r llwybr yma yn y gorffennol, neu fel fi wedi cael trafferthion wrth geisio'i ddefnyddio? Rydw i wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llanrug, ond ni all y Cyngor Cymuned wneud dim ond pasio'r gwyn at y Sir. All rhywun fy helpu?

Gyda diolch,
Gareth Pritchard

Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru,
Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell
Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HH

Annwyl Ddarllenwyr

Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru
Estynnir croeso cynnes i chi fynychu Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru a gynhelir am 2 o'r gloch dydd Sadwrn, 22 Mehefin, yn y Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Ein siaradwyr eleni fydd Llywydd y Cyfeillion, y Prifardd Myrddin ap Dafydd, ynghyd â D. Geraint Lewis ac Ann Parry Owen.

Yn dilyn y cyfarfod bydd cyfle i ymweld â swyddfeydd y Geiriadur ac i gael 'paned o de a chyfle i gymdeithasu. Yr ydym yn gobeithio cael cwmni nifer o'n Cyfeillion, a hefyd croesawu Cyfeillion newydd – bydd modd ymuno â'r gymdeithas ar y diwrnod.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan www.geiriadur.ac.uk, e-bostiwrch cyfeillion@geiriadur.ac.uk, neu ffoniwch 01970 639094.

Yn gywir
Mary Williams
Ysgrifenydd y Cyfeillion
28 Mai 2019

Cyfarfod Blynyddol – a rhybudd amserol

Fel arfer, roedd y ciosg teliffon ar gornel y stryd yn Llanberis bron yn llawn ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol...

Ond o ddifri, roedd hi bron cynddrwg â hynny, ac wedi bod felly ers sawl blwyddyn bellach. Pump o swyddogion y papur ac ysgogydd cynllun peilot Bro360 yn Arfon oedd yn bresennol. Derbyniwyd dau ymddiheuriad.

Un o'r prif bryderon oedd y ffaith fod nifer yr hysbysebwyrr yn lleihau yn flynyddol, ac felly hefyd, incwm y papur. Gweler y daflen ariannol.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y papur, boed yn gyfrannwyr erthyglau, newyddion ayyb, yn ohebwyrr pentrefi ac yn ddosbarthwyr. Hebdoch, ni fyddai papur misol.

Ond mae angen gweithwyr newydd, yn enwedig rhai ieuengach, i barhau â'r gwaith dros y degawd nesaf. Erbyn hynny, bydd mwyafrif y pwyllgor yn bedwar ugain oed, a diwedd y papur ar y gorwel.

Cysylltwch i gynnig cymorth.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£75 : Sian Gwenllian AC
(Ffi a dderbyniodd am
gwblhau Arolwg Barn)

£30 : Er cof am Miss
Louie Pritchard, Llanberis
ar ran y teulu

£20: Susan ac Emyr
Williams, Pant Hyfryd,
Ceunant; Er cof am John
H. Hughes, 8 Ffordd
Capel Coch, Llanberis;
Y teulu, er cof am Gareth
Jones, 3 Bro Deiniol,
Deiniolen.

£10 : Bet Evans, Y Ddol,
Bethel; Huw a Pat er
cof am Wil Price Jones,
Aberystwyth (gynt o
Rhiwen, Deiniolen);
Eirian Jones, 11 Stryd
Newydd, Deiniolen;
Tomos Owen Hughes, 6
Hafan Elan, Llanrug.

£5 : Mona Mai Griffiths,
Hafan Elan, Llanrug

DALIER
SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2019

Incwm				
Gwerthiant				8687.94
Hysbysebion				4372.00
Dosbarthu taffenni				100.00
Rhoddion				1860.30
Grantiau				
Lywodraeth Cymru		1870.00		
Cynghorau Cymuned				
Llanberis	600.00			
Llanddeiniolen	300.00			
Llanrug	700.00			
Waunfawr	200.00	1800.00		3670.00
Llog Banc				13.48
				18703.72
Gwariant				
Argraffu, plygu a chasglu				11200.00
Dylunio				3740.00
Teipio				2860.00
Post				544.29
Papur, amienni ayyb				0.00
Costau'r Wefan				431.28
Erail				4.00
				18779.57
Colled am y flwyddyn				-75.85

Parhad LLYTHYRAU

Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn fodlon gwerthu ein hetifeddiaeth yn rhad

Annwyl ddarllenwyr,

Ysgrifennaf atoch I chi ystyried a allwch fod o gymorth.

Mae'n debyg i chi glywed fod Henaduriaeth Arfon wedi pendeefynnu cau Capel Rehoboth, yn Nant Peris. Ni chawsom unrhyw ddewis ganddynt: (wel derbyn cael ein cau ac yna trosglwyddo peth o'n cyfalaf i Capel Coch, Llanberis, neu ,pe baem wedi gwrthwynebu, gwnaethpwyd yn glir i ni y byddent yn cau Rehoboth a gyrru'r arian fyddai'n weddill i gyd i'r pencadlys yng Nghaerdydd). Ni wnaerhom bleidleisio i gau hyd yn oed. Cynigwyd i ni uno hefo Capel Coch heb unrhyw son am gau. (yn y bleidlais)

Ers cau'r capel mae Sasiwn y gogledd, (rydwi'n deall) wedi penderfynnu rhoi Rehoboth ar y farchnad agored am £50,000, er i mi ebostio Yr Eglwys Bresbyteraidd (Ysg Cyffredinnol, Y Parch Meirion Morris) i ofyn iddynt yn gyntaf gynnig gwerthu Rehoboth (ee fel Canolfan Iaith neu rhyw bwrpas arall) i:

1 Lywodraeth Cymru 2 Gyngor Gwynedd

3 Y Parc "Cenedlaethol" 4 Amgueddfa y Chwarel

5 Yr Ymddiriedolaeth "Genedlaethol"

rhag gwerthu Rehoboth dan draed i brynwr preifat er mwyn i hwnnw wneud elw mawr. Roeddem yn yswirio y Capel am £800,000 .

Gwelaf weithred Sasiwn y Gogledd o'r Eglwys Bresbyteraidd yn un hynod o anghyfrifol, ac ysgrifennaf atoch i chi ystyried a allwch helpu i ddwyn pwysau ar Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Henaduriaeth Arfon i ail-ystyried gwerthu ar y farchnad agored.

Os ydynt yn rhy ddi-hid i gysylltu a'r cyrff a enwais, yna mae'n beth eitha cyffredin gan enwadau eraill (eglwys Lloegr) i osod cyfamod yn y gwerthiant i fynnu gan unrhyw brynwr y bydd defnydd cymdeithasol yn parhau i'r adeilad, a byddai gwneud hyn yn dderbynniol iawn.

Ymddengys mai yr oll sy'n bwysig iddynt yw'r deg darn ar hugain o arian y maent yn ei lygadu wrth iddynt fradychu y Nant, cilio o cefn gwlad a gwerthu ein hetifeddiaeth. Cofiw'n mai pobl y Nant a dalodd an godi a chynnal Rehoboth dros y blynyddoedd. Dim ond sugno ein harian wnaeth yr Eglwys Bresbyteraidd, ac yn y diwedd, maent yn gadael ni , yr aelodau sy'n weddill yn y tywyllwch yn hollol

Cofiw'n parhau gyngor Gwynedd wedi rhoi grant hael tua 2002 i ddarparu cegin, toiled, ramp, a bwrdd tenis bwrdd. Gobeithio y gwnant ymdrech i ennill yr arian yna yn ol o EBC. Mae'n amheus gen i os yw'r pethau yna felly yn eiddo i Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Yn olaf, onid oes i Rehoboth bwysigrwydd cenedlaethol? Yma tua deng mlynedd yn ol y cawsom fuddigoliaeth dros yr awdurdodau mewn fudo Prydeinig, gan gasglu £1,500 ar gyfer y ddwy eneth o'r wladfa ym Mhatagonia i ddychwelyd i Gymru ar ol cael eu trin mor wael. Achosodd hyn i lawer mwy gyfrannu, nes tyfodd y swm yn £5000. Efallai nad yw pethau fel hyn yn cyfri dim i'r Eglwys Bresbyteraidd

Yn ddiffuant,

Eilian Williams

eilian@talktalk.net (07718982732)

Cadeirydd Cyngor Gwynedd 2019-20



Yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Gwynedd ar 2 Mai, etholwyd Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Waunfawr) yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Simon Glyn (Tudweiliog) yn Is-Gadeirydd.

Yn Gyngorydd Gwynedd ers 2016, mae'r Cynghorydd Edgar Wyn Owen wedi gwasanaethu ar wahanol bwyllgorau megis Craffu Cymunedau, Trwyddedu, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Fforwm Ardal Gwyrfa, Pwyllgor Cynllunio ac yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Waunfawr ac Ysgol Brynrefail.

Wrth gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd, dywedodd y Cynghorydd Owen:

"Rwy'n ei ystyried yn fraith ac yn anrhydedd cael fy ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Gwnaf fy ngorau i wasanaethu holl drigolion Gwynedd yn ystod fy mlwyddyn yn y Gadair."

Etholwyd y Cynghorydd Seimon Glyn (Tudweiliog) yn Is-Gadeirydd y Cyngor.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Yr RSPH (Royal Society for Public Health) yn beirniadu'r diffyg cynyddol mewn darpariaeth toiledau cyhoeddus o ganlyniad i gynghorau lleol led-led y wlad yn gorfod tynhau llinynnau eu pwrs. Y gymdeithas yn honni fod hyn yn atal nifer helaeth o'r boblogaeth rhag teithio. Arolwg diweddar ganddynt yn dangos fod 74% o bobl yn feirniadol o'r diffyg mewn toiledau cyhoeddus yn eu hardaloedd.

- Swyddogion Cynllunio Gwynedd yn argymhell caniatu cais i godi 'cerflun heddwch' yn Llanberis; y cyntaf o'i fath yng ngogledd Cymru. Gwnaethpwyd y cais gan "One-ness Home Peace Run" a'r bwriad yw codi'r cerflun efydd dwy fetr o uchder ar safle yn y maes parcio lle mae afon Goch yn llifo i Lyn Padarn. Ond Cyngor Cymuned Llanberis a'r Cynghorydd Sirol lleol yn 'bryderus' ynglŷn â'r lleoliad. Galw am gael cerflun sy'n fwy nodweddiadol o'r ardal, megis chwarelwr. (Gweler adroddiad Cyngor Cymuned Llanberis ar dudalen 24)

- Dur Prydain yn fethdalwyr a 5,000 o weithwyr yn Scunthorpe yn wynebu colli eu gwaith. 20,000 o weithwyr eraill yng ngwledydd Prydain yn debygol o ddioddef oherwydd sgil effeithiau.

- Y ffisegydd, yr Athro Brian Cox yn datgan y bydd posibilrwydd yn y dyfodol i'r hil ddynol symud i blaned Mawrth, ac mai honno fyddai'r unig blaned y gallwn ei chyrraedd. A fyddem yn cael ein hadnabod fel 'Mawrthwylion' wedyn? Mae un peth yn sicr: gyda cymaint o Fawrthwylion ar y blaned, fyddem ni fawr o dro yn gwneud llanastr yno chwaith.

- Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr yn 'dathlu' (?) pedair blynedd o fod mewn mesurau arbennig ers mis Mehefin 2015. Mark Drakeford, a oedd yn Weinidog Iechyd ar y pryd yn cyfaddef iddo fod mewn cyfyng-gyngor ar y pryd ynglŷn â rhannu'r awdurdod iechyd mwyaf yng Nghymru i ddau neu hyd yn oed dri awdurdod llai. Ond a fyddai hynny wedi gwella'r sefyllfa?

- Pedwar aelod o Senedd Cymru yn newid eu cotiau unwaith yn rhagor, ac yn gwneud cais am gael eu cydnabod fel grwp Plaid Brexit. Ond gan mai unig bwrpas y blaid honno yw sicrhau Brexit, a fyddant angen côd newydd arall ddiwedd Hydref, y dyddiad y gallai gwledydd Prydain ffarfelio â'r Undeb Ewropeaidd?

- Y Prif Weinidog dagreuol yn ymddiswyddo a'r ras am fod yn arweinydd newydd y Toriaid yn cychwyn (er nad yw'n dechrau'n swyddogol hyd Fehefin 7fed). Y mwyafrif ohonynt yn gelwyddgwn honedig, a Boris, y ffefryn, yn wynebu achos llys preifat am ddweud celwydd tra mewn swydd gyhoeddus. A 120,000 yn unig o aelodau'r Blaid Geidwadol fydd yn dewis yr arweinydd – a fydd hefyd yn Brif Weinidog. Hynny gan y blaid sydd am eithrio o Ewrop er mwyn rhoi rheolaeth Prydain yn ôl "yn nwylo'r bobl". Pa bobl tybed?

- Etholiadau Ewrop a Phlaid (chwe wythnos oed) Brexit yn sgubo'r Ceidwadwyr a Llafur o'r neilltu. Y tro cyntaf mewn hanes etholiadau cenedlaethol i'r Toriaid fethu a chael ymgeisydd ar frig y rhestr mewn unrhyw etholaeth. A'r tro cyntaf i Lafur beidio a chael mwyafrif y pleidleisiau yng Nghymru ers dros ganrif. Cael eu gwrthio i'r trydydd safle gan Blaid Brexit a Phlaid Cymru.

- ac o ddadansoddi'r canlyniadau yn yr Etholiad i Senedd Ewrop, cafodd y Blaid Geidwadol 9.1% o'r pleidleisiau, Y Blaid Lafur 14.1%, (sef y ddwy blaid sydd ac aelodau o blaid ac am aros yn Ewrop); y pleidiau sydd am adael Ewrop (Brexit ac UKIP) 34.9%, a'r pleidiau sydd am aros yn Ewrop (y Democratiaid Rhyddfrydol, Y Blaid Werdd, Plaid Cymru, Plaid Genedlaethol yr Alban a Change UK) 40.4%.

MERCHED Y WAWR



Yng nghyfarfod Mai cafwyd brethyn cartref o Sioe Ffasiwn gyfranodd at noson hwyliog iawn. A hynny heb orfod dibynnu ar fodelau drud na chynllunwyr dillad o fri.

Esboniodd Gwenan, ein llywydd, y syniadaeth a'r her tu cefn i'r noson. Gofynwyd i 5 o'r aelodau – a 5 arall yn ymgynghorwyr iddynt – wario £10 y cwpwl ar ddillad i'w prynu mewn unrhyw siop elusen o'u dewis. Roedd ymateb ein pum model – Falmai, Nora, Jen, Cecile a Mair Read – wedi plesio y ddwy feirniad yn arw. Ac nid unrhyw feirniad! Neb llai na Meirwen Lloyd y Llywydd Cenedlaethol ac Anne Elis yr Ysgrifenyddes Cenedlaethol. Roedd y canlyniad yn unfrydol – cydradd gyntaf, gyda phob un yn derbyn y wobwr o Sash arbennig – o well safon o lawer nag un Huw! Yn ol y beirniad roedd y modelau wedi dewis yn dda o ran



defnyddioldeb a lliw, ac yn sicr wedi cael gwerth eu harian. Fel sy'n arferol mewn nosweithiau ffasiwn uchel ael fel hyn roedd Falmai a Nan wedi paratoi lluniaeth oedd yn gweddu i'r achlysur. Yr un modd, roedd paned Alys a Delyth o'r safon uchaf.

Cyfeirwyd at lwyddiant y tîm bowlïo deg. Gan gipio'r drydedd safle yn y gystadleuaeth ranbarthol maent yn mynd ymlaen i rownd Gogledd Cymru ym Mhrestatyn.

Ar Fehefin 15ed, bydd y wibdaith flynyddol. I gyffuniau Betws y Coed ac Ysbyty Ifan bydd y daith eleni, gyda'r bws yn gadael Y Cysegr am 11 a.m. Mae croeso i rai nad ydynt yn aelodau, yn wŷr neu ffrindiau ymuno â ni. Gofynir iddynt roi eu henwau unai i Gwenan (671022), Cecile (679928) neu Mair Price (01286 672975).

MAI LLWYDDIANNUS



Felly bu hi yn farddonol I Richard Llwyd Jones a hynny draw yn Ne Ceredigion. Ar ddau benwythnos yn olynol cipiodd Gadair Eisteddfod Bryngwenith ac yna y Gadair a'r englyn yn Eisteddfod Tal-garreg.

LLONGYFARCHIADAU



Rydym wedi ein gwefreiddio gan berfformiadau Owain Llystyn Thomas, Y Ddôl ers sawl blwyddyn bellach ar lwyfannau Eisteddfodol a Chyngherddol. Anodd credu ei fod bellach yn 18 oed ac ym mis Medi bydd yn dechrau fel myfyriwr yn Ysgol Gerddorol y Guildhall yn Llundain. Dyma un o brif ganolfannau addysg gerddorol y byd. Mae Owain wedi derbyn Ysgoloriaeth i astudio yno. Mae hefyd yn aelod o Fand Prês Ieuencid Ewrop, ac yn ddiweddar bu mewn cyngherdd yn Geneva. Yn wir, ef sy'n dal y 'swydd' o 'Principal Cornet' yn y band yma. Mae hefyd erbyn hyn yn aelod o Fand Prês enwog Faireys. Yn y llun gwelir ef yn derbyn canmoliaeth gan ei gyd aelodau ym mand pres Ieuencid Cymru. Wrth ddymuno'r gorau iddo ar ddechrau gyrfa, diolchwn hefyd am ei barodwydd i gefnogi achosion lleol, boed yn eisteddfod neu gyngerdd.

Parhad BETHEL



CEFNOGI

Am y mis nesaf mae'n bosibl i chwi gefnogi Eisteddfod Bethel os ydych yn siopa yn Tesco, Caernarfon. Fe ddewiswyd yr Eisteddfod yn un o'r tri mudiad/cymdeithas fydd yn ymgiprys am wobrau ariannol. Yr ennillydd fydd yr un o'r tri fydd wedi cael y nifer fwyaf o docyns a roddir i'r cwsmer yn dibynnu ar yr arian a wariwyd yn yr archfarchnad. Bydd y ddau arall hefyd yn derbyn symiau llai. Dywedwch wrth eich ffrindiau felly sy'n siopa yno. Fe gynhelir y Steddfod eleni ar Hydref 19.

DIOLCHIADAU

Dymuna Emyr a Jean ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y llu cyfarchion ac anrhegion a dderbyniodd y ddau wrth ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Yr un mor ddiffuant mae Tomos Alun ac Emyr yn cydnabod y cydymdeimlad a ddangoswyd gan lawer o golli eu chwaer Morfudd draw ym Manceinion yn ddiweddar.

CYFRANNU

Ar ran y Pwyllgor Cydenwadol yn y pentref diolch i bob un â gyfranodd i gasgliad drws i ddrws Cymorth Cristnogol eleni. Diolch hefyd am barodrydd y casglwyr ffyddlon. Cyfranwyd cyfanswm amlennol o £862, gyda cyfraniadau adaliad treth yn helpu chwyddo'r cyfanswm..Diolch I Gwilym a Sheila Williams am gyd-gysylltu yr ymgyrch. Yn oes rhifau sy'n mynychu oedfaon yn disgyn, yma ym Methel mae'r cyfraniadau Cymorth Cristnogol yn cynyddu pob blwyddyn. Mae'n siwr fod ateb i'r tueddiad yma yn rhywle.

MISH MASH MEHEFIN

Dyma'r enw a roddwyd i'r Wythnos Weithgareddau ac Adloniant i'r fro a drefnwyd eleni ar gyfer yr wythnos Mehefin 24 - 29. Fel arfer mae llu o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer ystod o oeddrannau. Diolch ymlaen llaw i'r criw o drefnwyr am eu cyfraniad. I arianu yr wythnos eisioes mae tocynnau y Raffl Fawr ar werth gyda gwobrau o £100/£50/£25. Dyma drefn y gweithgareddau.

Nos Lun: Helfa Drysor Nos Fawrth: Bingo Nos Fercher: Râs 7k Bethel/ Râs Milltir y Plant

Nos Iau: Disgo'r Plant Nos Wener: Noson Coctel a Chreision.

Daw'r gweithgareddau i ben gyda Diwrnod y Carnifal ar y Sadwrn. Bydd yr Orymdaith yn gadael maes chwarae Bro Rhos am 1pm.

CLWB BRO

Aed ymlaen â'r trefniant o gael ambell i 'bnawn allan' fel rhan o'r rhaglen flynyddol. Y tro yma i amgueddfa Storielym Mangor yr ymlwybrodd yr aelodau. Diolch I'r sawl a gyfranodd wasanaeth tacsî i gludo pawb I'r ddinas. Yno I'n tywys yn hamddenol a gwybodus roedd Shirley Owen, Swyddog Addysg yr Amgueddfa. Yn y gwahanol ystafelloedd roedd sawl arddangosfa ddiddorol o fyd Celf, Hanes a datblygiad Celfi Cartref. Roedd nifer o'r rhain o fewn cof yr aelodau. Roedd sylw hefyd I gyfraniad Telford a'r pontydd, a chefnidir addysgol Dinas Bangor. Yno roedd Coron Eisteddfod Bangor ddechrau'r 20ed ganrif a chadair ryng-golegol R. Williams Parry. Yno hefyd Coron Brenin Enlli, ar fenthyg o Lerpwl.

Ar hyn o bryd mae arddangosfa Merched y Chwareli. Yma ceir dadansoddiad trwy gelf gan bump o artistiaid lleol. Maent hefyd wedi creu dreser ar ffurf bocsus. Gall y cyhoedd gyfrannu gwahanol gelfi cartref/ amaethyddol/ gweithle i'w rhoi yn y bocsus i adlewyrchu cyfnod y chwaraeli. Pnawn hamddenol , addysgiadol, 'troi'r cloc yn ol', â phaned a chacen flasus i ddiweddu'r pnawn.

Y mis nesaf, Mehefin 4ydd. bydd y wibdaith flynyddol, ac eleni bydd bys Derfel yn ein tywys i ardal Aberystwyth, a phryd blasus wedi ei drefnu ar y ffordd adref. Manylion gan Mary Wyn (670115)

O'R YSGOL

Diolch I drefniadaeth y Gymdeithas Rhieni/Athrawon a'r gefnogaeth arferol gwnaed elw o £1073 yn Ffair Haf yr Ysgol. Edrychwn ymlaen yn ystod y mis i gyhoeddiad yr adroddiad ysgrifenedig yn dilyn yr Archwiliad Addysgol diweddar.

MORAGOS

Ers cau y Bedol mae tîm pŵl Bethel wedi cynnal aelodaeth

o'r gynghrair lleol gan chwarae eu gemau yng Nghlwb Pêldroed Caernarfon. Cawsant dymor 'llwyddiannus' eto'n siomedig gan golli mewn tair rownd derfynol y cwpanau. Tipyn o her i Gwilym Hefin a'r hogia i fynd un yn well y tymor nesaf.

DAL Y PWYSAU

Ym mhencampwriaeth athletau Ieuencid Cymru yn ddiweddar ennillodd Cody O'Donnell y fedal aur am daflu'r pwysau i'w oedran. Mae Cody bellach yn canolbyntio ar yr agwedd yma o athletau a dilynwn ei yrfa llwyddianus gobeithio.

CYDNABOD

Hoffai aelodau a hyfforddwyr grwp dawns Angylion Kelly gydnabod a diolch am y rhodd o £150 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen tuag at gostau teithio i'r tri parti fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Gobeithio y bydd gennym lwyddianau i'w nodi mis nesaf.

LLONGYFARCHIADAU

I Alun ac Elin Gaffey ar enedigaeth merch fach Elsi Grug draw yng Nghaerdydd.

CYDYMDEIMLAD

Danfwn ein cofion dwysaf at Dafydd a Llinos Williams, Hafod, Parc y Wern yn eu colled ddisymwth o ferch yng nghyfraith Dafydd draw ym Mhenarth.

Yr un modd cydymdeimlwn a Kathy Bell a'I theulu ar golli

ei thad yn ddiweddar. Roedd Elfed yn uchel ei barch yn y byd pêldroed lleol a gwnaeth lawer I feithrin sawl chwaraewr ifanc a chynnal timau yn enwedig yn Neiniolen.

APÊL

Gair i atgoffa fod sedd wâg o hyd yn ward Bethel ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Mae'r datblygiadau presennol ac arfaethedig yn awgrymu newid mawr ym Methel yn y dyfodol agos. Cofier hefyd fod wardiau Bethel a'r Felinheli yn ymuno ar lefel sirol. Bydd yn bwysig felly i gael cwota llawn o gynghorwyr cymuned yma ym Methel. Siawns nad oes un person ag ysbryd o wasanaeth gymunedol yn bodoli yn y ward.

Etholwyd y Cynghorydd Gareth Griffith yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn gyfredol.

CNOI BYSEDD

Wedi ymlafnio dros yr wythnosau diwethaf , dymunwn yn dda i bawb o'r ardal wrth ddisgwyl am eu canlyniadau arholiad. Wrth ddymuno'r gorau, tristwch meddwl mai y mwyaf llwyddianus yw'r bobol ifanc y mwyaf tebygol iddynt symud i ffwrdd o'r ardal am Addysg Bellach, ac yna aros i ffwrdd. Ystadegyn brawychus am fyfyrwyr Cymreig yw na fydd tua 80% ohonynt yn derbyn gwaith mewn meysydd sy'n ymwneud a'u pwnc gradd.

OEDFAON MEHEFIN

BETHEL: 2/6 Parch. Glenys Jones 9/6: Parch. R.E.Hughes 16/6: Eurfryn Davies 23/6: Parch. Iwan Llywelyn Jones (11a.m.) 30/6; DG

SARON: 2/6: Arwel Williams 9/6: Idris Thomas 16/6: Parch. Gwynfor Williams 23/6: Parch. Richard Gillion(c) 30/6: Charles Jones

CYSEGR: 2/6: Richard Morris Jones 9/6: Gweinidog 16/6: Susan Williams (Oedfa Deulu)

23/6: Gweinidog 30/6: Plant yr Ysgol Sul (a phaned)



DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

ENTREPRENEUR YN DYCHWELYD AC YN LANSIO CWMNI GWRESOGI NEWYDD!

Mae gwraig fusnes o Fangor yn lansio cwmni rheiddiaduron trydan newydd sydd yn garedig i'r amgylchedd, Warme Heating, wedi iddi symud yn ôl i'r ardal yn dilyn 16 mlynedd yn byw ym Manceinion.

Symudodd Julie Roberts i Fanceinion yn 2001, gan sefydlu ei hun fel ffigwr blaenllaw yn sector gwerthu a hysbysebu y cyfryngau, cyn arallgyfeirio a gweithio i gwmni rhyngwladol yn sector gwresogi'r cartref.

Dychwelodd Julie i ardal Bangor yn 2017 am resymau teuluol, gan ymchwilio i bosibiliadau hunangyflogaeth oherwydd diffyg cyfleoedd yn yr ardal. Erbyn hyn, mae wedi sefydlu ei chwmni ei hun, ynghyd â Stefan Maciejewski, dyn busnes wedi ei leoli ym Manceinion.

Dywedodd y fam sengl, sydd â thri o blant: "Symudais yn ôl i ogledd Cymru yn 2017 oherwydd gwaeledd fy nhad, ac wedi dychwelyd syrthiais yn ôl mewn cariad gyda'r lle ac roeddwn am fagu fy mhiant yma. Roeddwn wedi gweithio i gwmni rhyngwladol enfawr yn y sector gwresogi'r cartref, yn teithio miloedd o filltiroedd bob blwyddyn, ac fe sylweddolais y gallwn gynnig gwasanaeth llawer mwy personol yng ngogledd Cymru, gyda phwyslais cryf ar ôl-ofal."

Aeth ymlaen i ddweud: "Rydym wedi llwyddo i sicrhau'r hawliau dosbarthu ar gyfer ein nwyddau yn y Deyrnas Unedig ac yn gallu eu cynnig am 50% yn rhatach na'n cystadleuwyr. Gyda gwresogi Olew ac LPG yn parhau i fod yn amlwg yn y Gymru wledig, gall nwyddau Warme Heating gynnig opsiwn gwresogi llawer glanach a mwy effeithlon, sydd yn bosibl i'w raglennu i siwtio anghenion pob cartref, sydd yn dod heb unrhyw gostau gwasanaethu na chynnal a chadw, a gwarant am 30 mlynedd!"

Bwriad Julie yw i sefydlu ei hun yn Ynys Môn, Gwynedd a gweddill gogledd Cymru i ddechrau, gan sefydlu tîm o gynrychiolwyr lleol, cyn ehangu'r busnes i rannau eraill o Gymru a gogledd orllewin Lloegr.

Warme HEATING

DOSBARTHWRY LLEOL AR GYFER GWRESOGYDDION STORIO EFFEITHLON O'R ALMAEN

YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD

RHEIDDIADURON TRYDAN

Y datrysiaid perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi

- Gwresogi yn sydyn
- Rhaglennu 24/7
- Perfformiad uchel a Glân
- Rheoli pob ystafell yn annibynnol
- Yn gydnaws ag Economy 7
- Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
- Yn cydymffurfio â Lot20
- Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig

RHATACH NAG OLEW AC LPG

CYNNIG Y GWANWYN - 10% I FFWRDD WRTH NODI PAPUR BRO

ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA

01248 371 730 | 07845 034 622 | www.warmeheating.co.uk

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn darganfod mwy edrych ar www.warmeheating.co.uk, ac fe allwch drefnu arolwg heb unrhyw rwymedigaeth YN RHAD AC AM DDIM drwy gysylltu â Julie naill ai drwy e-bost, neu drwy ei ffonio ar 01248 371730 – pob lwc Julie!

ARVONIA

- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

DODREFN A LLORIAU PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

Marchnad Ogwen

Neuadd Ogwen, Bethesda
(Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)

Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00

Bwydydd • Creffttau • Lleol

www.marchnadogwen.co.uk

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

LLANRUG Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)



Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Sharon, Eurwyn, Natalie ac Elain a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt, sef Mr Irfon Ellis, Caernarfon.

Capel y Rhos

Oedfaon mis Mehefin

2: y Gweinidog, Parch Marcus W. Robinson

9: (Sulgwyn) Mr Eurfryn Davies

16: Y Gweinidog

23: Mr Richard Morris Jones

30: Mr Alun Morton Thomas

Diolch Dymuna Mona Mai Griffith, 2 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 95 oed.

Eglwys St Mihangel yn y Sefydliad Coffa

Gwasanaethau

Mehefin 16: Cymun Sanctaidd

Cymdeithasol

Mehefin 12fed: Helfa Drysor Car am 6 o'r gloch yr hwyr yng nghefn yr Ysgol Gynradd. Pryd o fwyd ar gael i'w brynu ar ddiwedd y daith.

Mehefin 15fed: Ffair Haf yn y Sefydliad Coffa.

Priodas Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Martin a Lindsey (Swyddfa Post gynt) ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'r cwpwl yn byw yn Llansamlet.

Arholiadau Pob dymuniad da i blant Ysgol Brynrefail ac i fyfyrwyr y colegau ar adeg arholiadau pwysig. Pob lwc i chi i gyd.

Profedigaeth Cofiw'n a chydymdeimlo gyda Endaf, 26 Glanffynnon, Sioned a'r hogia yn eu profedigaeth o golli tad Endaf yn Bontnewydd yn ddiweddar.

Profedigaeth Yn 98 mlwydd oed, ar ôl salwch byr, bu farw Annie Ceinwen Norman, Copper Beeches, Ffordd Glanffynnon. Fe'i ganwyd yma yn Llanrug ond wedi treulio blynyddoedd lawer yn Lloegr cyn dychwelyd yn ôl yma. Roedd wedi trafaelio'r byd gyda'r mab a'r teulu rhan fwyaf, a chanddi hanesion diddorol iawn. Colled fawr i'r mab a'r teulu i gyd ac i'w chymdogion a ffrindiau lleol.

Profedigaeth Yn dawel, yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Jennie Owen, 7 Hafan Elan, yn 86 mlwydd oed. Mam annwyl iawn i Anwen a Dafydd, Bryn Moelyn ac i Mary, Sian, Richard a Noel. Daeth i fyw i Lanrug er mwyn cael bod yn agos i'w theulu, er ei bod wedi ei magu ym Mhorth Amlwch a symud sawl gwaith wedi ei phriodas. Fe ymgartrefodd mor sydyn yma yn Hafan Elan a mawr fydd y golled gan ei chymdogion a'i ffrindiau lawer.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant ag Anwen a Dafydd, Elin ac Ifan a'r plantos, Moi Gruff ac Elsi Grug a'r teulu i gyd.

Babi Newydd Ynghanol y tristwch o golli nain arbennig, ganwyd Elsi Grug i Elin Dafydd ac Alun Gaffey yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr i chi eich tri a phob bendith arnoch.

Llongyfarchiadau i Anwen a Dafydd ar ddod yn daid a nain unwaith

eto. Mi fydd Elsi yn gysur mawr i chi ar yr amser anodd yma.

Cymorth Cristnogol Diolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth i'r achos yma.

Salwch fe gofiwn yn garedig at sawl person yn y pentref sydd yn wael adref neu yn yr ysbytai. Brysiwch wella.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mai 14, cychwynnwyd y noson gyda Chàn y Mudiad a chroeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd 2018 ac fe'u cafwyd yn gywir. Bu'r dasg o ddewis swyddogion yn rhwydd gyda Nan yn Llywydd, Bethanne yn ysgrifennydd, Ann Lloyd yn Is-ysgrifennydd, Pat yn Drysorydd ac Avril yn Is-drysorydd. Aelodau'r pwyllgor fydd Eirianwen, Iris, Mair a Rhian. Cynrychiolwyr Anabl: Eryl a Margaret; Celf a Chrefft: Jean ac Ann Lloyd; Dosbarthwr y Wawr: Olwen; Gohebydd y wasg: Ann Ifans a Mary. Derbyniwyd llythyr gan Tegwen yn llongyfarch y gangen ar dderbyn 'Canmoliaeth uchel' yng nghystadleuaeth 'Rhaglen Orau 2019'. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru am y cyfraniad hael i gronfa 'Cyfle i Bawb', Gwersylloedd Haf yr Urdd, gan sicrhau lle i blentyn o gefndir ariannol heriol i fynychu gwersyll haf yn un o wersylloedd yr Urdd yn 2019, gan gynnig profiadau amhrisiadwy a all newid trywydd bywyd.

Cynhelir Gŵyl Penwythnos Preswyl ym Mhrifysgol Bangor ar Fedi 6ed i'r 8fed gyda gwasanaeth fore Sul am 9.30 gyda'r thema Ffydd, Gobaith, Cariad, ynghyd â llawer o weithgareddau difyr. Cynhelir gweithgaredd Rhanbarth ar Mehefin 28ain, sef Taith Gerdded i gychwyn am 5.00 o Pant Du, Penygroes. Enwau erbyn Mehefin 21ain. Bydd dewis o fwyd, sef lasagne neu llysieuol am £8. Os dymunir gellir ymuno yn y bwyd yn unig.

Mehefin 11eg bydd y gangen yn ymweld â Nant Gwrtheyrn gyda'r bws yn cychwyn o Benisarwaun am 5.45. Dymunir pob lwc i Barti Dawnsio Gwerin Ysgol Llanrug ac i unrhyw un o fro'r Eco sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Llawer o ddiolch i Avril, Rachel a Carys am y baned. Enillwyr y raffl oedd Carys a Jennie.

Clwb Clychau'r Grug Edrychir ymlaen am weld ein gilydd nos Wener, Mehefin 14, yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, am 6.30. Braf oedd cael cwmni Menna ym Mhant Du, Penygroes, fore Gwener, Mai 10fed gan obeithio y ceir ei chwmni yn y Celt. Ein cofion annwyl at Glenys a Siencyn.

Diolchiadau

Dymuna Tomos Owen Hughes, 6 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 95.

Plaid Cymru

Ennillwyr Clwb Cant Mai

1.. Paul Rowlinson, Bethesda

2.. Carys Jones, Penisarwaun

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

ECO'r Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mai oedd: £30: Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isaf (rhif 4); £20: Sian Lloyd Jones, Gwêl y Grug (rhif 95); £10: Eluned Coles, 6 Bro Waun (rhif 251).

Mae'r Clwb 300 wedi mynd yn llai dros y blynnyddoedd. Os oes gan rhywun ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb sy'n dod ag incwm rheolaidd i'r Ganolfan, cysylltwch â'r Trysorydd, Carys Owen, Glyn Awel (650594) i gael ffurflen debyd banc (£1 y mis) neu gallwch dalu £12 am y flwyddyn.

Llongyfarchiadau i Edgar Owen, ein Cynghorydd Sir, ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Dywedodd ei bod yn ffrainc ac anrhydedd iddo ac y gwnaiff ei orau i wasanaethu trigolion y sir yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Llongyfarchiadau i Gwynant Pierce (Nant y Mynydd gynt) yn awr o Lanrug ar dderbyn Tlws Bobby Haines am lun gorau'r flwyddyn yng Nghlwb Camera Caernarfon. Cyflwynwyd y Tlws iddo gan Melanie Jones, Cadeirydd y Clwb.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod y mis bu Mabon, Llys Meredydd, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed. Cefais ddiwrnod da o dathlu a phen-blwydd hapus i ti. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Babanod Bach Newydd Ganwyd mab bach a'i enw yn Elis Wyn i Rhian a Gareth Wyn, Stad Llys y Waun. Brawd i Aled Wyn a Gethin Wyn sy'n edrych ymlaen i'w brawd bach ddod i chwarae gyda nhw.

Ganwyd merch fach, Cadi, i Arwel a Ceri sy'n byw yn Rhostryfan, chwaer fach i Guto, Lois a Lea. Wyres i Elfyn a Menna, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd.

Daeth Dewi, Bryn Tawel, yn daid i Nel, merch fach a anwyd i Elen, ei ferch a'i chymar, Matt. Chwaer fach i Llion ac Owen, gor-wyres i Mrs Margaret Jones, Glasfryn, Teras Glyn Afon.

Llongyfarchiadau i'r holl deuluoedd a phob hwyl a phleser ichi ar y magu.

Newid Aelwyd a Chroeso Dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd wedi symud cartref o'r Waun i ardal newydd ac i'r teuluoedd sydd wedi cartrefu yma yn y Wan. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma.

Gwellhad Anfonwn ein cofion cynnes at bob un sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn y cartref. Croesawn Lyndsey, siop y pentref, adref wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn falch o'i gweld yn cryfhau ac yn gwella.

Anfonwn ein cofion hefyd at Idris Evans, Stad Croes y Waun, sydd yn derbyn gofal yng Nghartref Plas Maesincla, Caernarfon, ar hyn o bryd.

Merched y Wawr, nos Iau, Mai 23 Croesawodd Anita, Llywydd y gangen, yr aelodau i'r cyfarfod ac eglurodd bod Buddug Jones yn methu bod gyda ni i sgwrsio am Gŵn Tywys. Diolchodd i Bethan am ei pharodrwydd i lenwi y bwlch gyda gem o Bingo = gwobr am un llinell, gwobr am ddwy linell a gwobr am dŷ llawn. Cadi gafodd y wobwr un llinell, Glenys y wobwr dwy linell a phwy gafodd y tŷ llawn? ie Cadi.

Diolchwyd i Iris a Carys am gynrychioli cangen Y Waun a chymryd rhan yn y gamp distawrwydd am ddwy awr a chyfrannwyd £120 tuag at Gronfa Awtistiaeth. Diolchwyd iddynt hefyd gan Bwyllgor yr Anabl. Bu Irene yn aelod o'r Pwyllgor Anabl am sawl blwyddyn ond wedi ymddeol eleni. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth. Anfonodd Anita gofion annwyl at yr aelodau oedd yn methu bod yn bresennol. Llongyfarchodd Menna ar ddod yn nain i wyres fach newydd, Cadi, merch Arwel a Ceri a chwaer fach Guto, Lois a Lea. Cydymdeimlodd â Fflur yn ei phrofedigaeth o golli ei hewythr.

Diolchodd i Iris a Carys fu'n paratoi y baned a'r raffl a phwy fu'n lwcus o ennill y raffl? Wel,

noson Cadi oedd hi. Mae Anita bob amser yn falch o Heulwen, am ei chefnogaeth, ac yn ddiolch iddi o waelod calon. Bu'r ddwy drysoryddes yn brysur yn casglu arian gan yr aelodau i dalu am y pryd bwyd a gawn ym mwyty Pant Du, Penygroes, ac arian y bws i'n cludo yno a adra yn ôl. A dyna lle byddwn yn mwynhau ar y pedwerydd nos Iau ym mis Mehefin, wedi gadael pentref y Waun am chwarter wedi chwech o'r gloch.

Hysbyseb Clwb Ti a Fi Waunfawr Cynhelir Clwb Ti a Fi i'r rhai bach a'u rhieni yn y Ganolfan thwng 1 o'r gloch a 2 o'r gloch bob prynhawn Mawrth yn ystod tymor yr ysgol. Y pris yw £1 y plentyn. Cyfle da i'r rhai bach ddod i adnabod ei gilydd.

Cân Mistar Urdd Mae dros 40 mlynedd er pan glywsom ni'r gân yma gyntaf ac erbyn hyn mae wedi dod yn 'anthem y mudiad'. Eleni penderfynodd yr Urdd ei newid ychydig bach a Mei Gwynedd gafodd ei gomisiynu i wneud y gwaith. Cafodd Meilir lot, lot o hwyl a phleser yn gweithio gyda 2000 o blant ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro a hwythau wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Y ôl Geraint Davies, cyfansoddwr y gân nid yw Meilir wedi newid lot fawr, ond mae na dinc modern iddi nawr ac mae ishe hynny ar ôl 40 mlynedd. Cawn edrych ymlaen i'r chlywed, Meilir.

Diolch Dymuna Jeanifred, Gareth a theulu Glyn Ceris, Stad Bodhyfryd, ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad dwys a ddangoswyd iddynt ar golli Gwendoline, chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb

annwyl. Hefyd diolch am y cardiau lu a'r rhoddion hael.

Dymuna Graham, Yvonne, Martin a Gerald a'u teuluoedd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn. Diolch hefyd am y rhoddion hael sydd yn cael eu rhannu rhwng Cartref Plas Maesincla, Caernarfon a Chymdeithas Alzheimers.

Profedigaeth Daeth y newydd trist i'r pentref am brofedigaeth Eryl Wyn (Rhoslan) o golli ei phriod, Gwyn Francis. Cydymdeimlwn yn ddwys â Eryl, ei mab Julian a'i briod Michelle a'u tri mab yn eu galar a'u hiraeth am briod annwyl, tad a thad yng nghyfraith a thaid caredig iddynt. Cydymdeimlwn hefyd â Fflur Llywelyn yn ei hiraeth o golli ewythr ac â Nia a'i chymar yn colli eu brawd yng nghyfraith.

Dydd Sul, Ebrill 28, yn dawel ac yn frawychus o sydyn bu farw Anna Bracegirdle Williams. Mam annwyl Meirion a Marc, a chwaer Jim. Bydd colled fawr i'w theulu a'i ffrindiau. Dymuniad y teulu oedd derbyn rhoddion yn ddiolchgar tuag at gael Diffibrilydd i'r pentref er cof amdani.

Roedd clywed am farwolaeth Colin Williams a fagwyd yma yn y Waun yn newyddion trist i'r pentref. Cydymdeimlwn â'i briod Mary, ei ferch a'i feibion a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u colled drist. Cydymdeimlwn hefyd â Carol, ei chwaer a'r teulu. Bu gwasanaeth ei angladd yn Eglwys Llanbeblig ac ym mynwent newydd Llanbeblig.

Gwasanaethau Capel y Waun ym mis Mehefin am 10 o'r gloch

2:

9: Mrs Nerys Griffith, Caernarfon

16: Cyfarfod yr Aelodau

23: Canon Robert Townsend

30: Mrs Susan Williams

Parhad WAUNFAWR

Teyrnged i Anti Gwen

Cafodd Anti Gwen ei geni yn Cae Steel, Waunfawr, ar y 23ain o Fedi 1939 yn blentyn cyntaf i John Meredydd a Ceridwen Owen a'i henwi yn Gwendoline Margaret Owen.

Cafodd ei magu yno ynghyd â'i brawd, y diweddar Johnathanial, Yncl Nath, a'i chwaer fach, Jeanifred, sef mam. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Waunfawr ac wedyn yn Ysgol yr Higher Grade, Caernarfon. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio'n gyntaf i Siop George Mason yng Nghaernarfon ac yna i Liptons a County Boot Stores.

Yn 1961 fe briododd â Richard Rowlands (neu Yncl Dic i fi) ac ymgartrefu yn 5 Bryn Golau a chael pedwar o blant, Graham, Yvonne, Martin a Gerald. Ar ôl cyfnod yn magu'r plant fe aeth i weithio fel gofalwraig yn Ysgol Waunfawr am nifer o flynyddoedd. Cefais oriau o fwynhad yn helpu Anti Gwen yn llau'r ysgol ac o'n i wrth fy modd pan yr oedd hi yn gadael i mi ddefnyddio'r mop symudol a oedd yn rhoi sglein ar loriau pren yn ysgol.

Wedi gorffen fel gofalwraig yr ysgol bu'n gweithio yng Nghartref Gwynfa yng Nghaernarfon ac yn y blynyddoedd diwethaf roedd y genod oedd wedi bod yn cydweithio â hi yno yn edrych ar ei hól yng Nghartref Plas Maesincla.

Plant oedd popeth i Anti Gwen. Mi roedd wrth ei bodd yn eu cwmni. Bob bore Nadolig roedd yr wyrion a'r wyresau i gyd yn mynd draw i 5 Bryn Goleu i gael eu anrhegion Nadolig a hyd yn oed yn y blynyddoedd diwethaf tra yn y cartref, y plant oedd ar ei meddwl a byddai'n gofyn bob dydd, 'Lle mae'r plant?' a'r ateb gan bawb oedd 'Ma nhw yn yr ysgol.' Roedd hyn yn ei gwneud yn hapus a bodlon.

Hoffai'r teulu ddiolch o galon i holl staff Plas Maesincla am eu caredigrwydd a'u gofal dwys dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd Anti Gwen yn berson annwyl a chyfeillgar ac roedd ei chariad a'i chefnogaeth diamod tuag at ei theulu yn amlwg i bawb.

Pan yn blentyn roedd Anti Gwen fel ail fam i minnau a chefais oriau o bleser yn ei chwmni o helpu i lanhau'r ysgol i gysgu mewn pabell am y tro cyntaf yn yr ardd yn 5 Bryn Goleu.

Cysgwch yn dawel Anti Gwen.

Pur oleuni, anfon di
 Arglwydd da, i'm calon i
 Gad i'm deimlo'r cariad drud
 Gorffwys yn dy fynwes glyd
 Gwylied engyl ar bob llaw
 Cadwent y peryglon draw
 Ac os marw raid i mi
 Dwg fi'n iach i'r cartref fry.

Gwennan

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

Cerdded a Darganfod Teithiau Mehefin

GWENER 7 MEHEFIN 2.00yp
 BANGOR: PERFEDDGOED A FFORDD
 CAERNARFON (2½ milltir)
 CYCHWYN: 'THE RANGE', FFORDD
 CAERNARFON, BANGOR.
 CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED. UN DARN
 BACH SYDD GALLU BOD YN WLYB AR LWYBR
 CYHOEDDUS.

MAWRTH 18 MEHEFIN 10.00yb
 COED DINORWIC (1½ milltir)
 CYCHWYN: ALLT DDU, DINORWIC.
 CYMEDROL. LLWYBR CYHOEDDUS SYDD YN
 ANWASTAD AR ADEGAU. SGIDIAU CERDDED.

GWENER 28 MEHEFIN 2.00yp
 DINORWIG '50: TAITH HANES CHWAREL
 DINORWIG: RHIF 3 o 6
 GILFACH DDU (2 milltir)
 CYCHWYN: MENTER FACHWEN, 52 STRYD
 FAWR, LLANBERIS.
 EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.

SUL 30 MEHEFIN 5.30 yh
 CWM Y GLO: Y FFRWYDRIAD POWDWR OIL
 – 150 MLYNEDD YN DDIWEDDARACH... I'R
 EILIAD (1½ milltir)
 CYCHWYN: MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
 HAWDD. ANGEN ARCHEBU EICH LLE TRWY
 CYSYLLTU A 07867 810576 neu trwy e-bost:
 garethroberts754@yahoo.co.uk

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

**ECO'r
Wyddfa**

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr “Eco”, bu’n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw’r “Eco” allan o’r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin.
 Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Ciperiaid.

Doedd y cipar ddim yn gymeriad poblogaidd iawn ers talwm. Hynny mae'n debyg oherwydd mai ei waith oedd gwarchod 'eiddo' y tîrfeiddianwyr, boed rheini'n gwningod neu'n adar megis y ffesant, y petris neu'r iâr fynydd. Bwyd rhad ac am ddim i'r werin dlawd a oedd wedi arfer eu hela ers canrifoedd nes i Ddeddfau Cau'r Tiroedd Comin drosglwyddo'r hawl am y tir cyffredin i ddwylo'r cyfoethogion.

Cafwyd trafferthion ar Fawnog y Go yn rhannau uchaf Llanddeiniolen. Bu'n rhaid i denantiaid y Faenol arwyddo cytundebau newydd yn 1875, a chauwyd y tir mynydd ar gyfer magu grugieir. Rhoddwyd rhybudd i Mrs Anne Roberts, Trosgol i adael ei thyddyn, er mwyn cael ei thir ar gyfer hela, a throdd yr hen wraig ei gwartheg i'r lôn nes iddynt grwydro dros Fawnog y Go. Daeth y Faenol ag achos o dresmasu yn ei herbyn, ond ar fater technegol gallodd ei chyfreithiwr, J.Bryn Roberts, Bryn Adda (cymydog agos i Assheton Smith ac aelod seneddol Rhyddfrydol dros Eifonydd yn ddiweddarach), osgoi i'r hen wraig gael ei thaflu o'i chartref. Gwrthwynebai hefyd hawl Assheton Smith i feddiannu tir comin a'i droi'n dir hela grugieir. Ond aeth mynydd-dir Trosgol a'r Foel Rhiwen yn fagwrfa grugieir, ac yr oedd angen cipar i'w warchod

Ar ddamwain y deuthum ar draws un o'r ciperiaid rheini, a hynny tra ar drywydd sgwarnog arall (nid yn llythrennol felly, rhag ofn fod ysbrydion rhai o'r hen giperiaid yn dal o gwmpas!). Chwilio am deulu yn rhannau isaf plwyf Llanddeiniolen yr oeddwn a dod ar draws cyfenw hollol ddieithr: Mitchell. Nid hwn oedd y teulu roeddwn i'n chwilio amdano, ond roedd yr enw'n ennyn chwilfrydedd.

Yn 1891 roedd gwraig o'r enw Augusta Alice Mitchell yn byw yn Coed Bolyn Lodge. Roedd yn 38 mlwydd oed, ac wedi ei geni yn Sherborne, swydd Dorset. Roedd ei phlant, Frederick James (9 oed), Thomas (5 oed) ac Ada Olive (1 oed) wedi eu geni ym mhlwyf Llanddeiniolen – a doedd dim son am ei gŵr. Yno hefyd roedd merch o'r enw Christina Ross (13 oed) a anwyd yn Llanrwst, ac a ddisgrifir fel 'ymwelydd'. Roedd cyfenw hon hefyd yn ddieithr, ond a oedd perthynas deuluol rhwng Mitchell a Ross?

Yn 1881 doedd Augusta Alice Mitchell ddim yng Nghoed Bolyn, ond roedd Christina Ross yn Llanddeiniolen. Yn y flwyddyn honno roedd yn byw gyda'i rhieni, Hugh a Barbara Ross, a'i brodyr John (7 oed), Charles (2 oed) a Donald (6 mis oed) yng Ngae'r Mynydd, ar lethrau Moel Rhiwen. Fe'i cofnodir fel Christiana, ac yr oedd dau o'i brodyr wedi eu geni yn Llanrwst hefyd, ond y 'fenga, Donald, yn Llanddeiniolen. Brodorion o'r Alban oedd ei rhieni, a gwaith Hugh Ross oedd 'gamekeeper'.

Hwn, mae'n debyg oedd cipar y Faenol. Ac anaml iawn roedd dynion lleol yn cael y swydd o gipar. Mewn fudwyr o rannau eraill o Brydain fyddai'r mwyafrif ohonynt. (Roedd cipar y Glasgoed yn dod o swydd Norfolk). Oherwydd hynny, ac oherwydd natur eu swydd, fyddai yna fawr o gymdeithasu gyda'r trigolion lleol, a doedd y trigolion lleol ddim yn or-hoff ohonynt hwythau chwaith!

Ceir cyfeiriad at Hugh Ross gan y diweddar John Ellis Williams yn un o'i erthyglau ble mae'n son am ei ewythr Ellis, potsiwr oedd yn byw heb fod yn nepell o Gae'r Mynydd fel "arch-elynn y Sgotyn Ross."

Pam felly roedd merch y cipar yn aros yng Nghoed Bolyn yn 1891? A'i cipar oedd gŵr Augusta Alice Mitchell hefyd, yn gofalu am rannau isaf plwyf Llanddeiniolen, ac yn digwydd bod oddi cartref ar ddyddiad y cyfrifiad? Roedd gan Hugh Ross ddwy ferch arall erbyn hyn, sef Mary ac Ellin. Efallai mai yno'n cynorthwyo'r fam efo'r ferch fach Ada Olive yr oedd Christiana.

Erbyn 1901 roedd teulu Coed Bolyn wedi symud i Fangor, ac yn byw yng Nghae Llepa. Mae'r gŵr yn ôl: Francis, a 'house painter' wrth ei alwedigaeth. Fe'i ganwyd yn Swydd Efrog. Ble roedd Francis Mitchell yn 1891 felly? A oedd i ffwrdd yn rhywle'n peintio tŷ? Na, oherwydd mae o leiaf pedwar cofnod ar gael amdano rhwng 1890 ac 1894 yn gweithio fel 'gamekeeper' i Assheton Smith, y Faenol.

Ym mis Chwefror 1890 mae William Williams, Tyddyn Andrew, Saron, fferm fechan bron gyferbyn â chartref y cipar, yn ymddangos o flaen ei well yng Nghaernarfon ar gyhuddiad o saethu dwy betrisen ar ei dir ei hun, a Francis Mitchell a'i daliodd. Honnai William Williams, a oedd yn berchen trwydded saethu, ei fod yn anelu at gwningen, ond iddo ladd y ddwy betrisen ar ddamwain. Roedd hefyd yn honni fod y cipar yn ei wyllo'n gyson oherwydd iddo wrthod hawl saethu dros ei dir i Assheton Smith. Beth bynnag am hynny, cafodd ddirwy o ddeg swllt.

Ym mis Chwefror 1891 mae Francis Mitchell yn dal Hugh Griffith a Richard Roberts o Ebenezer yn hela ger Llanberis. Mae'r ddau'n gwrthod rhoi eu henwau iddo, ac yntau'n eu dilyn i Fethel, ac yno'n darganfod eu henwau. Daethpwyd ag achos yn eu herbyn ac fe'u dirwywyd o bum swllt yr un.

Ym mis Ionawr 1892 cyhuddwyd Thomas Morris (ni roir cyfeiriad iddo) o ddwyn tair ffured oddi ar y cipar. Gwnaeth yr heddlu ymchwiliadau ym Mangor a Chaernarfon, a'i ddal o'r diwedd ym Mhwlheli. Ond fe'i cafwyd yn ddieuog gan na ellid profi mai ef oedd wedi dwyn y tair ffured (a oedd yn digwydd bod yn ei feddiant ar y pryd!).

Ym mis Chwefror 1894 y daw'r cyfeiriad olaf i mi ei ddarganfod am Francis Mitchell fel cipar. Daliodd rhyw Hugh Griffith, saer maen, yn y broses o ddal cwningod. Ni thrafferthodd hwnnw droi i fyny'n y llys, a chafodd ddirwy o bymtheg swllt yn ei absenoldeb.

Rwydro rhwng 1894 a 1901 daeth cyfnod Francis Mitchell i ben fel cipar ar Stad y Faenol, ond parhaodd Hugh Ross yn y gwaith nes ei ymddeoliad ac erbyn 1911 roedd yn byw yn Nant Mount, Capel y Graig, Penrhosgarnedd. Roedd eu merch ddi-briod, Ellin, yno hefyd – ond yn galw ei hun yn Helen erbyn hyn! A beth am Christiana? Bu hi farw'n ferch ifanc bedair ar bymtheg oed a'i chladdu ym mynwent Llandinorwig. Cynhaliwyd coffa amdani yn yr eglwys yn ystod yr unig wasanaeth misol Saesneg a gynhelid bryd hynny.

Dau deulu o rieni di-Gymraeg yn dilyn yr un alwedigaeth felly, a dyna'r unig gysylltiad rhwng Christiana druan a theulu Coed Bolyn. Dau benteulu oedd yn gwneud eu gwaith, ond gwaith nad oedd yn ennyn unrhyw gydymdeimlad gan y gymdeithas roeddent wedi cartrefu ynddi.

Pwy tybed ddaeth yn giperiaid ar eu hol? A phryd y daeth swydd y cipar i ben ar Stâd y Faenol?

Ffermio yn Nhŷ Cerrig, Bethel.....

Tynnwyd y llun ar gae o'r enw Cae Crwn ar fferm Tŷ Cerrig, Bethel tua 1921; bron i ganrif yn ôl. Eleri Morris Jones, Bryn Hyfryd, Bontnewydd a anfonodd y llun, ac aelodau o'i theulu sydd ynddo. Yr hynafgwr gyda'r farf wen laes sy'n eistedd ar y peiriant torri yw ei hen hendaidd, sef John Evans. Ar y chwith iddo, gyda'i fraich allan mae ei fab, John Evans arall, a symudodd yn ddiweddarach i fferm y Geufron, Llanwnda.

Does dim gwybodaeth am y gŵr gyda'r het sydd hefyd yn eistedd ar y peiriant, ond credir mai ymwelwyr i'r ardal yw'r gŵr â'r plentyn yn ei freichiau. John Sargeant yw'r crwt ym mreichiau ei dad; yma ar wyliau o ardal Luton.

'Hoss' oedd enw'r ceffyl du, ond does dim cof am enw'r un brith. Anodd credu fod y math hwn o ffermio wedi diflannu bron yn gyfangwbl o'r tir o fewn llai na hanner can mlynedd. Dyfodiad yr hen 'Fergie bach' mae'n siwr, fu'n bennaf gyfrifol am hynny.



Ap Padarn a'r Ddrama Gymraeg.....

Soniais y mis diwethaf am William Gadlys o'r Waunfawr a Gayney Griffith o Nant Peris a'u cysylltiad a Chwmni Drama gwreiddiol Llanberis. Mae'n debyg mai un o'r rhai fu'n bennaf gyfrifol am sefydlu'r cwmni oedd Ap Padarn, sef Thomas Edward Jones. Dyma'r gwr gynigiodd wobr o ddecupunt yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri am ddrama Gymraeg; swm go sylweddol y pryd hynny. Fel yr adroddwyd eisoes, Beriah Gwynfe Evans fu'n fuddugol, a phenderfynodd pwyllgor yr eisteddfod ffurfio cwmni drama i berfformio'r cyfansoddiad buddugol. Roedd Ap Padarn yn aelod.

Yn ol traddodiad, roedd gan Thomas Edward Jones ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth, a'r ddrama yn arbennig, a dywedir ei fod yn dysgu darnau helaeth o ddramau Shakespeare ac yn eu 'perfformio' ar lan y llyn – boed ganddo gynulleidfa neu beidio!

Fe'i ganed yn Llanrug yn 1856, yn fab i Edward Jones a'i wraig Elizabeth, ond symudodd y teulu i Lanberis pan oedd Thomas Edward yn ifanc iawn, a chadw siop yn 3 Bryn Hyfryd. Rywbryd rhwng 1871 ac 1881 roedd y teulu wedi ymsefydlu yn Compton House. Erbyn hyn roedd y mab hynaf yn gweithio fel dilledydd (draper). Galwai'r tad ei hun yn 'merchant', ac mae'n amlwg fod dwy ran i'r siop: dillad a groser. Roedd merch ifanc o'r Iwerddon, Ellen Parkes, yn cael ei chyflogi yno i wneud hetiau. Ar wahan i Thomas Edward, roedd saith o chwirydd : Laura, Catherine, Mary, Jane, Margaret, Sara a Jemima, ac un brawd, John Edward.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, roedd y mwyafrif o'r plant wedi gwasgaru, gyda Margaret a Sarah yn helpu yn y siop, ac Ann Ormrod o Darwen, Swydd Gaerhirfryn, yn cael ei chyflogi fel 'milliner and dressmaker'. Roedd Thomas Edward erbyn hyn yn 'commercial traveller' – yn delio mewn dilladau mae'n fwy na thebyg. Credir fod rhyw gysylltiadau a Lerpwl hefyd erbyn hyn. Bu farw Thomas Edward yn wr ifanc 45 mlwydd oed yn 1901.


Tra yn ei ugeiniau y bu cyfnod mwyaf llewyrchus Ap Padarn ym

myd llen yn Llanberis. Roedd yn aelod o bwyllgorau'r Eisteddfod, yn aelod o'r cwmni drama, ac yn cyfansoddi barddoniaeth hefyd. Yn 1879 roedd yn fuddugol yng Nghylchwyl Lenyddol Flynnyddol Dinorwig a Llanberis ar bryddest goffadwriaethol i Owen Daniel (Goronwy oedd ei enw barddol). Roedd ei waith hefyd – a'r cysylltiad a Lerpwl, yn rhoi cyfle iddo (ac i ambell un arall o'r cwmni) i fynychu perfformiadau o ddramau yn y ddinas honno, a gwylio prif actorion y ddrama Saesneg ar y pryd.

Cafwyd ymateb da iawn y mis diwethaf gan ddisgynyddion William Gadlys. Tybed a oes gwybodaeth am Ap Padarn yn dal ym meddiant rhai o'r teulu? Anodd darganfod faint o'i chwirydd a arhosodd yn yr ardal. Priododd ei frawd, John Edward efo Ann Ormrod. Bu'n gweithio yn Ysbyty'r Chwarel "lle bu'n gwella briwiau'r chwarelwyr gyda'i oel dail" yn ol un adroddiad. Bu'n cadw siop Regent House ar sgwar Llanrug yn 1901 cyn symud tua 1904 i Long Eaton, Swydd Derby. Yn 1911 fe'i cofnodir yno fel "dispenser to surgeons". Roedd ganddo dri o blant: Kathleen Myfanwy Ormrod Jones, John Allenstor (?) Ormrod Jones ac Edna Varley Ormrod Jones. Anhebyg fod unrhyw un o'r rhain wedi dychwelyd i Lanrug neu Lanberis.

Ym mis Awst 1890 priododd Mary gyda Thomas R Williams o Ddinbych, ond ni fu plant o'r briodas. Yn 1900 yn Lerpwl, priododd Jemima gyda Robert Jeffrey Hughes, mab y diweddar Hugh Hughes, Bedwargoed House, Llanberis. Flwyddyn yn ddiweddarach roeddent yn byw yng nghartref y gwr yn Llanberis. A oes disgynyddion? Yn 1908 priododd Margaret gyda David H. Williams, Mur Mawr, Llanberis. A oes disgynyddion? Yn 1901 roedd Sarah yn byw gartref yn Compton House, ond yn galw ei hun yn Sarah Pritchard. Roedd ganddi ferch fach ddyflwydd oed o'r enw Adelaine neu Adelaide. Beth ddigwyddodd iddynt?

Roedd y teulu yn aelodau yng nghapel Gorffwysfa, ac fe'i claddwyd yn Llanrug.



Gwesty Copa'r Wyddfa.....

Coeliwch neu beidio, ond hwn oedd y gwesty a fwriedid ei godi ar gopa'r Wyddfa yn 1895, ond ni wireddwyd y freuddwyd. Does gen i ddim gwybodaeth am gynllunydd yr adeilad na pham na chafodd ei adeiladu. Oes rhywun yn gwybod?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Eglwys St Helen

Gwasanaethau Mis Mehefin: Cymun Bendigaid am 11yb pob bore dydd Sul

Cronfa cynnal a chadw y fynwent.

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion canlynol tuag at gronfa cynnal a chadw y fynwent: £10 Mr Selwyn Roberts, 2 Lon Tŷ Gwyn, Caernarfon; £10 Dr W Munro a Helen Evans Munro; £30 gan Mair a Dennis Davies, Tregarth. Mae'r 2il doriad i dacleso y fynwent eisoes wedi cymryd lle.

Te tost a sgwrs

Croeso i bawb ymuno â ni yn y te tost a sgwrs yn Neuadd yr Eglwys am ddim bob bore dydd Llun o 9-11yb.

Gyrfaon Chwist

Cynhelir gyrfaon Chwist yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7yh. Bydd newid noson yn cymryd lle yn mis Gorffennaf dros dro.

Bingo Arian

Cynhelir bingo arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher, drysau yn agor am 7 ac yn dechrau am 7.15yh.

Carnifal ac Wythnos o Weithgareddau

Bydd wythnos o weithgareddau a Charnifal y flwyddyn yma yn rhedeg o nos Lun, Mehefin 24ain, hyd at nos Sul, Mehefin 30ain, a dyma y manylion:

Nos Lun Mehefin 24ain: Bingo Gwobrau yn Neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Nos Fawrth Mehefin 25ain: Gyrfa Chwist y Carnifal yn Neuadd yr Eglwys am 7yh

Nos Fercher Mehefin 26ain: Mabolgampau ar gae yr Ysgol am 6yh

Nos Iau Mehefin 27ain: Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Nos Wener Mehefin 28ain: Helfa Drysor yn ddechrau o Neuadd yr Eglwys o 6yh – 6.45yh ac yn diweddu mewn lleoliad am fwyd.

Dydd Sadwrn Mehefin 29ain: Y Carnifal ar gae yr ysgol, fe fydd yr orymdaith yn ddechrau o'r hen gartref nyrsio am 1.30yp

Dydd Sul Mehefin 30ain: Gymanfa Ganu yn Eglwys St Helen am 6.30yh gyda eitemau gan Gôr Meibion Caergybi a Chôr Meibion Dinas Bangor a chôr plant yr Ysgol Gymuned. Estynnir Croeso cynnes i bawb

gymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau.

Ysgol Penisarwaen

Gwersi Beicio - Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfres o wersi beicio lefel 1 a 2 yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn ac wedi derbyn tystysgrif. **Sesiwn Karate** - Galwodd Sara a Karen yn yr ysgol fore dydd Mawrth, Mai 14eg, i roi sesiwn ffitrwydd i ddisgyblion yr adran Iau. Diolch yn fawr iawn iddynt.

Gwasanaeth- Croesawyd Susan Williams Cynllun EFE i gynnal Gwasanaeth pnawn dydd Iau, Mai 16eg. Mwynhaodd pawb wrando ar stori Jona a'r Morfil a chanu. Diolch yn fawr iddi am drefnu i ddod i'r ysgol o bryd i'w gilydd, roedd pawb wedi mwynhau.

Dechrau Canu Dechrau Canmol - Treuliodd Cwmni Teledu Rondo fore dydd Gwener, Mai 24ain, yn ffilmio'r plant yn Canu dwy gân yn ogystal â chael gwers ar Achub y Plant. Roedd pawb wedi cynhyrfu'n lân ac wedi mwynhau'r profiad.

Cyngerdd Canmlwyddiant Achub y Plant Hoffwn ddiolch i'r disgyblion, ac i'w rhieni am eu cefnogaeth ac rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a dderbyniwyd. Mae CD'S ar werth yn yr ysgol am £10, elw tuag at gronfa Achub y Plant.(adroddiad ar wahan)

Cronfa'r Pensiynwyr- Enillydd y bêl bonws mis Ebrill oedd Miss Nancy Williams, Llys y Gwynt gyda rhif 10. Llongyfarchiadau!

Diolchiadau Dymuna Jean, 24 Bryn Tirion, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig ar Ebrill 26ain. Diolch o galon i Haydn am drefnu'r parti ar ei chyfer.

Dymuna Ann Paterson a Liz Jones ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu noddi i wneud y Ras am Fywyd (Race for Life) 5k ar ddydd Sul, Mai 12fed. Rhyngddynt fe gasglwyd £400 i ymchwil Cancr.

Gwellhad buan Dyna ddymunwn i Phil, 25 Bryn Tirion gynt; a Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt; Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a Mrs Brenda Richardson, Tai

Bryn Hyfryd, sydd wedi gorfod treulio amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Pwyllgor Diffibriliwr Carai aelodau Pwyllgor Diffibriliwr ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael i'r gronfa. Mae'r swm a gasglwyd erbyn hyn wedi cyrraedd dros £5,500 gan ein galluogi i osod 2 ddifibriliwr yn yr ardal gyda'r trydydd yn cael ei osod ddiweddi y mis a phosiblirwydd o osod pedwerydd. Diolch yn fawr i bawb ohonoch. Bydd cyfarfod yn fuan i ddangos i bawb sut i ddefnyddio'r offer a hyfforddiant ar weithredu CPR. Cynhelir Pwyllgor ar Mehefin 3ydd am 7.00.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb cant Mai a'r enillwyr oedd Dafydd Owen, Bryn Hyfryd ac Ann Patterson, Bryntirion. Cynhaliwyd Miri Haf nos Iau, Mehefin 6ed. Ceir y manylion yn y rhifyn nesaf. Cydymdeimlir yn ddwys ag Erin a theulu'r Winllan ar golli mam yng nghyfraith, nain a gor-nain annwyl. Ein cydymdeimlad llwyrfa â Gwenllian a'r teulu ar golli tad, tad yng nghyfraith a thaid balch. Llongyferchir Liz ac Ann Patterson am gymryd rhan ym Marathon Caernarfon er budd Cancr.

Pwyllgor Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, Gorffennaf 11, am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Bydd testunau'r Eisteddfod yn

cael eu dosbarthu i bob teulu drwy law yr ysgol. Bydd yr ymarferion yn cychwyn ar ôl gwyliau'r Sulgwyn, sef 5/6/19, a dosberthir nodyn i bob teulu. Cynhelir Noson Lawen yn Pontio, Bangor nos Fawrth, Mehefin 11eg, am 7.00 gyda Arwel a Myrddin, Trio, Sioned Terry, Hywel Pitts, Magi Tudur, Fight Lions, Côr Meibion Peris, Owain Llestyn, Côr Ysgol Brynrefail, Leisa Brown a Cadi Thomas. Tocynnau yn £5 gyda'r elw yn mynd er budd ein Eisteddfod Bentref. Trefnir bws i gychwyn o Benisarwaun am 6.00 Tocynnau ar gael gan Liz Jones (872421) ac Ann Ifans (872407). Cynhelir Pwyllgor ar Mehefin Sed am 7.00 gyda ymarferion i aelodau i ddilyn.

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Anti Rhian (Owen) am wirfoddoli i helpu Anti Ann fore Sul, Mehefin 12fed. Yn dilyn dameg Yr Heuwr plannwyd hadau Blodau Haul a blodau Mari a Meri gan obeithio y byddant yn magu gwreiddiau, yn egino a dwyn ffrwyth o flodau hyfryd. Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau fore Sul, Mehefin 9fed gan edrych ymlaen yn eiddgar am gwmni Anti Susan, sef Susan Williams o gynllun EFE.


Gwellhad Anfonwn ein cofion annwyl at Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, gan obeithio ei bod yn gwella wedi arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion annwyl hefyd at bawb sy'n sâl yn y pentref.

ECO'r Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin.

Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

PLANT PENISARWAUN YN CODI TO CADEIRLAN BANGOR



Cafwyd noson fythgofiadwy yng Nghadeirlan Bangor ar Fai 18 wrth i blant Ysgol Gymuned Penisarwaun ymuno hefo sêr y byd opera a cherddorion proffesiynol lleol mewn cyngerdd mawreddog i ddathlu canmlwyddiant elusen Achub y Plant.

Sefydlwyd yr elusen ar Fai 19, 1919 yn Neuadd Frenhinol yr Albert yn Llundain gan ddwy chwaer o'r Sir Amwythig, Eglantyne Jebb a Dorothy Buxton. Erbyn hyn mae Achub y Plant yn gweithio mewn 120 o wledydd yn fyd-eang gan gynnwys yma yng Nghymru yn helpu teuluoedd a phlant i ffynnu yn eu blynyddoedd cynnar allweddol.

Union ganrif i'r diwrnod y sefydlwyd yr elusen roedd Cadeirlan Bangor dan ei sang i ddathlu'r garreg filltir yma. Cafodd y plant gyfle i rannu y llwyfan gyda'r gŵr a'r wraig, y tenor Gwyn Hughes Jones o Fôn a'r soprano Stacey Wheeler, yn wreiddiol o Bensylfania, y pianydd a'r cerddor amryddawn Annette Bryn Parri, a'r cantorion Emyr Gibson a Steffan Lloyd Owen.

Roedd y plant wedi bod wrthi yn ymarfer am wythnosaau ar gyfer y cyngerdd dan hyfforddiant 'Anti Annette' ac fe gawson nhw hefyd y profiad o recordio caneuon yn Stiwdio Sain ar gyfer CD elusennol a oedd ar werth am y tro cyntaf yn y cyngerdd.

Cyfansoddwyd y gân 'Mae 'Na Obaith' yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Annette Bryn Parri a'i gŵr, Gwyn Parri ac fe'i perfformiwyd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg gan yr holl artistiaid gyda'r gynulleidfa ar eu traed ar ddiwedd pob perfformiad. Fe

ganodd y plant hefyd y gân 'Ffrindiau' oedd wedi ei chyfansoddi yn arbennig ar eu cyfer gan Annette sydd hefyd wedi eu cynnwys ar y CD 'Mae 'Na Obaith/There is Hope'.

Yn ogystal â cael eu lleisiau wedi eu cynnwys ar CD mae'r plant hefyd wedi ymddangos ar raglen Heno ar S4C. Mi fyddan nhw hefyd yn ymddangos mewn rhifyn arbennig o Dechrau Canu Dechrau Canmol cyn bo hir!

Meddai Catrin Lloyd Roberts, Pennaeth Ysgol Gymuned Penisarwaun: "Mae'r plant wedi cael profiadau bythgofiadwy a hoffwn ddiolch o waelod calon i'r elusen ac 'Anti Annette' am roi inni y cyfle ac i'r holl staff a rhieni sydd wedi bod mor gefnogol. Roedd gweld wynebau y plant a'u hymateb pan gwrddon nhw â 'Gwyn a Stacey' am y tro cyntaf yn wefr. Rydan ni yn hynod falch o fod wedi gallu cyfrannu tuag at achos mor deilwng."

Ychwanegodd Eurgain Haf, Rheolwr Cyfathrebu Achub y Plant yng Nghymru: "Er bod plant yn dal i ddioddef, yn arbennig mewn rhyfeloedd, fel yr awgryma teitl y gân – 'mae 'na obaith' wrth i fwy a mwy o blant dderbyn eu hawlau sylfaenol yn fyd-eang ac wrth i elusennau barhau i frwydro drostynt. Mae gobaith hefyd wrth i blant, a theuluoedd ac ysgolion ac enwogion barhau i'n cefnogi a rhoi o'u hamser, eu haelioni a'u creadigrwydd i helpu'r achos.

"Diolch o waelod calon i bawb a wnaeth y cyngerdd yn bosib gan lwyddo i godi ymwybyddiaeth a thros £5,000 i gefnogi ein gwaith yng Nghymru ac yn Yemen.

Os hoffech gopi o'r CD 'Mae 'Na Obaith' (pris £10) mae rhai ar gael i'w prynu o Ysgol Gymuned Penisarawaun neu drwy ffonio Alison Wood o Gangen Môn Achub y Plant ar 07766 116 114. Nifer cyfyngedig o CDs sydd ar gael a dydyn nhw ddim ar gael yn y siopau, felly cyntaf i'r felin!

Sioeau Ysgol Gwynedd Daclus 2019

Disgyblion Ysgol Penisarwaun, Y Brodyr Gregory a'r Cyngorydd Elwyn Jones;

Cafodd disgyblion Ysgol Penisarwaun gyfle i fwynhau cyflwyniad gan y diddanwyr enwog Y Brodyr Gregory a'r Criw yn ddiweddar fel rhan o'u sioe deithiol sy'n ymwneud a materion amgylchedd lleol. Roeddynt yn ôl yn ysgolion cynradd Gwynedd yn ddiweddar fel rhan o'u sioe deithiol sy'n ymwneud a materion amgylchedd lleol.

Ariennir y sioeau gan Gyngor Gwynedd trwy grant Llywodraeth Cymru, ac maent bellach yn eu pumed flwyddyn o ymweld ag ysgolion y sir. Maent yn amlygu materion megis gwaredu sbwriel, baw cŵn a'r angen i arbed, aildddefnyddio ac ailgylchu. Mae'r sioeau yn ysgafn a hwyliog, gyda'r brodyr yn cael cymorth Ted Taclus ac Eli Eco, ynghyd a'r pypedau poblogaidd Siôn a Siân.

Trefnwyd y sioe gan fenter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. I ddarganfod mwy am Trefi Taclus yng Ngwynedd, cysylltwch â Swyddog Trefi Taclus y Cyngor ar 01766 771000 neu e-bostiwch trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru



Marwolaeth Mrs Enid Jones

Yn ystod y mis diwethaf daeth y newydd drwg i'r ardal am farwolaeth Mrs Enid Jones, gynt o Gae Canol, Fachwen, yn 91 mlwydd oed hefo meddwl mawr am y Fachwen. Bu iddi briodi hefo Griffith ac yna cartrefu yn Nhalysarn, Dyffryn Nantlle. Ganwyd iddi ddau o blant, sef Robert Arwyn a Sioned. Yn ystod y blynyddoedd olaf ac ar ôl iddi golli ei phriod bu iddi symud i gartrefu yn Rhuthun yn nes at ei mab. Bu iddi gael ei chymryd yn wael ar ddechrau'r flwyddyn a gorfod mynd i Ysbyty Glan Clwyd ac, oherwydd cyflwr ei iechyd, bu raid ei symud i Gartref yn Llangollen.

Yr oedd Enid, pan yn yr ysgol yn reit beniog ac, wrth gerdded adref o Ysgol Ramadeg Brynrefail i fyny'r Fachwen byddai yn reit brysur yn barddoni. Mewn ychydig amser byddai llawer pennill yn cael eu hadrodd ganddi.

Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, Ebrill 30. Yr oedd y gwasanaeth angladdol yng ngofal y Parchedig Tudur Rowlands, un arall o blant ardal y Fachwen a mawr fu y sôn am yr ardal.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Robat Arwyn a Sioned yn eu profedigaeth lem o golli mam. Gobeithio y bu iddynt yn y dyddiau tywyll yma gael nerth oddi uchod.

Marwolaeth Mrs Buddug Roberts

Unwaith eto daeth inni newydd trist am farwolaeth Mrs Buddug Roberts, gwraig Hughie Roberts, Bronallt. Ar ôl priodi bu iddynt gartrefu yn yr Wyddgrug ac fe anwyd un ferch o'r enw Bethan iddynt. Hughie wedi bod yn gymydog i mi am rai blynyddoedd. Y fo a'i ddiweddar dad yn gymdogion ardderchog.

Bu i Buddug gael salwch hir a chreulon a Hughie a Bethan wedi bod yn hynod o garedig efo hi. Bu ei hangladd yn yr Amlosgfa Bangor ar y 30ain, a'i llwch yn cael ei gladdu ym mynwent Coetmor Bethesda.

Bydd gwasanaeth i gofio am Buddug yn cael ei gynnal ar 31ain yng Nghapel Bethesda yr Wyddgrug yng ngofal ei gweinidog, y Parch Nan Powell Davies.

Fel ardal, Hughie, derbyn ein cydymdeimlad llwyrat â ti a Bethan gan obeithio y cewch nerth ac iechyd yn ystod y dyddiau tywyll yma. Bydd cofio am y dyddiau melys a gawsoch fel teulu hefo'ch gilydd yn siŵr o fod o gymorth ac yn debygol o ddod â gwên fach i'r wyneb.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat hefyd at y Parchedig Gwynfor a Mrs Williams. Gwynfor unwaith eto hefo cysylltiad mawr â'r ardal. Eurgain, ei ferch, wedi colli ei gŵr wedi newydd

drwg am ei salwch rhyw ychydig amser yn ôl. Mae dipyn o deulu yn dal i fyw yma yn yr hen ardal.

Bu'r angladd dan ofal y Parch Gwynfor Williams. Gobeithio y gallwch fel rhieni fod o nerth i Eurgain yn y dyddiau tywyll yma. Yr wyf yn gwybod eich bod yn meddwl y byd ohoni.

Gwynfor wedi bod yn garedig iawn hefo ni yn Eglwys Cefn y Waun, bob amser yn barod iawn i lenwi ambell oedfa i ni.

Damwain Drwg gennym ddeall bod Delwen, Bron Eilian, wedi syrthio ac wedi gwneud tipyn o lanast ar ei phen-ysgwydd. Gobeithio yn arw dy fod yn gwella. Y tro nesaf, Delwen, gad i Shirley fynd adra ar ben ei hun. Hefyd yr ydym yn dymuno gwellhad buan i bawb sydd yn cwyno yn yr ardal ac y cawn dipyn o haul i wella pawb yn nhymor yr haf.

Pen-blwydd Arbennig Wel, Mrs Morris, mae y diwrnod mawr yn agos iawn erbyn hyn a gobeithio yn fawr, erbyn yr Eco nesaf, y cawn eich llongyfarch ar y dathliad mawr oherwydd ar yr 11eg o Fehefin, fe fydd Mrs Morris yn 104. Oed mawr iawn.

Pen-blwydd hapus iawn ichi pan ddaw y dydd amser. Mae'n siŵr y bydd Eurwyn a Marsli yn reit brysur ac yn cael mwynhau y pen-blwydd efo chi. Llawr o gariad gan hynny o Gymry ardal Dinorwig sy'n bod o hyd. Mwynhewch eich diwrnod. Pawb yn holi amdanoch.

Llwyddiant Mae nain Bron Eilian a'r teulu a theulu Gwêl y Wyddfa yn dymuno yn dda i Tomos Derek Humphreys ar ei arholiadau yn y coleg yn Llundain ac yn gobeithio yn arw y bydd yn graddio eleni. Tomos, yr ydym ninnau fel ardal yn gobeithio yn arw y bydd gradd yn dod i'th ran ac y bydd llongyfarchiadau yn cael ymddangos yn yr Eco. Pob lwc a llwyddiant i chi i gyd, ac y gallwch fynd ymlaen hefo beth ydych eisiau ei wneud. Gobeithio y gorau ichi oll. Mae'r amser yma yn bryderus i lawer un.

ECO'r Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

CRWYDRO ER BUDD Taith 2019
Taith wefreiddiol

Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019

Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn - 01286 881911 (dydd)
Symudol - 07795 485081 (nos)
Eboist - crwydro@crwydro.com

Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...

www.crwydro.com

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Eboist- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

Dechrau newydd i ganolfannau hamdden Gwynedd

Mae cwmni newydd Cyngor Gwynedd, Byw'n Iach Cyf, bellach yn rheoli 12 canolfan hamdden y sir. Er y newid yma, gall pawb ddisgwyl derbyn yr un safon uchel o wasanaeth gan y staff croesawgar. Yn ystod y flwyddyn nesaf fe all defnyddwyr weld nifer o welliannau ac ychwanegiadau,

Dywedodd Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Byw'n Iach: "Mae staff Byw'n Iach wedi gweithio'n galed iawn dros y misoedd diwethaf i baratoi ar gyfer y trosglwyddiad ac erbyn hyn yn edrych ymlaen gyda brwdfrydedd at adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth o fewn y Cyngor. Mae'r dyfodol am fod yn heriol ond rydym am fod yn flaengar a chreadigol wrth chwilio am gyfleon i wireddu ein gweledigaeth fod 'Pob unigolyn yn gwsmer, pob teulu yn gwella eu hiechyd a lles a phob cymuned yn elwa.' Dyna ein huchelgais ar gyfer y gwasanaeth y gall pobl Gwynedd ei ddisgwyl gan Byw'n Iach."

I wybod mwy am Byw'n Iach a'r amrywiaeth helaeth o weithgareddau yn eich canolfan hamdden leol, ewch i wefan newydd www.bywniach.cymru - dros y misoedd nesaf, bydd mwy a mwy o eitemau o ddiddordeb yn cael eu hychwanegu at y wefan gan gynnwys blogiau ffitrwydd, fideos a chynlluniau cadw'n heini.



Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Byw'n Iach, Amanda Davies (ail o'r dde) gyda rhai o gyfarwyddwyr y cwmni, y Cyngorydd Jason Parry, y Cyngorydd Beth Lawton a'r Cyngorydd Dewi Owen


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Elusen

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgyrch YSGOL BRYNREFAIL am grantiau o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol blwyddyn academiaidd 2018-2019

Am ffurflen gais anfonwch at yr ysgrifennydd Mrs Heather Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, LL55 4TE.

cronfarhowen@aol.

Heatherjones37@aol.com

07867 982518

DYDDIAD CAU:

Hanner Nos 31 Hydref 2019.



GWASANAETH DYLUNIO GERDDI

Yn adnabyddus fel un o gyflwynwyr Garddio a Mwy (S4C), mae Meinir bellach wedi hyfforddi fel dylunydd gardd - cysylltwch os ydych chi'n awyddus i roi bywyd newydd i'ch gardd.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynnal a chadw'ch gardd am bris rhesymol gan gynnwys:

TORRI GWAIR A GWRYCHOEDD
CYNNAL A CHADW LLWYBRAU A WALIAU
AILWAMPIO BORDERI

Gyda chriw sydd â phrofiad helaeth o weithio'n broffesiynol mewn gerddi ac yn y byd adeiladu, gallwch fod yn sicr y byddwch yn cael y gwasanaeth gorau.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth!
07854 374588 post@meinirgwilym.com



Taith America



– Tu allan i Amgueddfa Gelf Philadelphia, neu'r 'Rocky Steps' i'r rhai sy'n cofio'r ffilmiau enwog!



Strawberry Fields – Y criw ger cofeb enwog John Lennon yn Strawberry Fields, Central Park

Taith y Gyfadran Ddyniaethau i UDA

Wedi oriau lawer o deithio a blwyddyn gron o baratoi, roeddem o'r diwedd ar dir yr UDA. - a dyna groeso a gafwyd! Cyfarchwyd ni gan storm o dywysydd – “Mike on the mic” fel y galwai ei hun – cymeriad lliwgar oedd yn garnifal o hyder, gwybodaeth a hiwmor dychanol! Y fo fyddai ein tywysydd yn Washington D.C – dinas a'm trawodd ar unwaith fel un unigryw. Doedd dim o'r cyfyngder poblog na chwaith y tyrrau uchel sydd mor nodweddiadol o'r dinasoedd mawrion, yn hytrach, roedd iddi ehangder a glendid difrycheulyd a ymlai ar fod yn annaturiol mewn rhai ardaloedd. Yn ystod ein hamser yno, cawsom y fraint o weld cofebau rhai o fawrion y genedl, er enghraifft Roosevelt, Abraham Lincoln a Martin Luther King yr Ieuaf. Profiad dirdynol oedd gweld Cofeb Rhyfel Korea a Rhyfel Vietnam, nid yn unig gan fod anferthedd y cerfluniau'n adlewyrchiad anghyffyrddus o enbydrwydd y colledion, ond roedd safbwynt yr Amercianwr o dywysydd ar yr hanes hefyd yn agoriad llygaid. Ni allai guddio ei dristwch a'i alar am y bywydau a gollwyd, ac eto, ymddengys ei fod o'r farn fod rhyfel yn annochel. Doedd dim edifeirwch am y gorffennol, dim ond digalondid stoicaidd.

Buom yn ymweld â sawl amgueddfa, gan gynnwys Amgueddfa'r Holocaust, Amgueddfa Hanes Cenedlaethol America ac Amgueddfa'r Awyr a Gofod, ond uchafbwynt yr amser yn Washington i mi'n bersonol oedd ymweld ag adeilad y 'Capitol'. Roedd hwn, canolfan ddeddfwriaethol yr UDA, yn meddu ar urddas anghymharol a wna i hyd yn oed yr ymwelydd mwyaf di-glem werthfawrogi ei bwysigrwydd. Fel rhywun nad yw'n arbennig o hyddysg yng ngwleidyddiaeth yr UDA (a dweud y lleiaf!), gwerthfawrogais ddawn ddeheuig y tywysydd i symleiddio hanes. Llwyddodd i wneud systemau gwleidyddol, etholiadol ac arlywyddol estron yn ddealladwy a difyr.

Cyn ffarwelio â Washington, aethom i ymweld â Mynwent Filwrol Arlington. Am fynwent! Aceri ar aceri o feddau gwyn unfath... a ninnau, fel pob ymwelydd, yn gorfod dangos ein parch a'n gwerthfawrogiad drwy beidio yngan smic. Cerddom i fynyr bryn er mwyn gweld bedd symbolaidd y 'milwr anhysbys' ac yna bedd y cyn-arlywydd John F. Kennedy a nodir gan y fflam dragwyddol. Profiad cwbl ddirdynol.

Gadawyd mawredd Washington D.C am leoliad tra gwahanol – pentref bach yn nhalaith Pennsylvania, sef Delta. Ond pam galw yno? Dysgom fod gan Delta gymuned Gymreig fechan ers i'r Cymry fewnfudo yno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn gweithio yn y chwareli llechi. Mae'r gwreiddiau Cymreig wedi goroesi, a thrigolion y capel yn parhau i ymdrechu i arddel hunaniaeth eu cyn-deidiau drwy ddysgu'r Gymraeg a chanu emynau yn yr iaith. Teimlad rhyfedd a swreal oedd gweld cerrig beddi Cymraeg pobl o Lanrug a Cwm-y-Glo filoedd o filltiroedd i fwrdd o adref. Braf hefyd oedd cael croeso mor gynnes gan drigolion y pentref, a fu mor hael a gwneud tē a chacennau cri i'r criw i gyd. Teimlai fel rhyw fath o gartref oddi cartref, ac roedd yn fy atgoffa'n fawr o ymweld â chymunedau Cymreig Patagonia.

Wedi ffarwelio â Delta, arhoswyd am gyfnod byr yn Philadelphia, cyn symud ymlaen i Efrog Newydd. Y concrit jyngl ei hun, â'i phrysurddeb digyfaddawd a'i thyrrau bygythiol yn lawn mor llethol â'r ffilmiau. Tra yn y ddinas cawsom ymweld ag amgueddfa 9/11, yr Amgueddfa Tenement a theithio ar long (heibio'r enwog 'Statue of Liberty') i Ynys Ellis, ynys addewid, ble byddai'r mewnfudwyr yn mynd i gael eu cofrestru slawer dydd - pob un hefo'i obeithion ei hun am fywyd gwell.

Ni chredaf i mi erioed weld, dysgu na phrofi mwy o fewn wythnos nag a wnes ar y trip hwn; felly esgusodwch yr hen ymadrodd treuliedig, ond bu, heb os, yn daith cwbl fythgofiadwy.

Seren Bowen



Y Staff tu allan i'r Tŷ Gwyn – Diolch i'r staff am drefnu. O'r chwith Mr Elfyn Roberts, Mrs Catherine Bailey, Mr Iwan Barker-Jones, Miss Erin Jones a Miss Ffion Hughes



Wall Street ar y ffordd I ganolfan ariannol Efrog Newydd.

Llwyddiant cenedlaethol yng
nghystadlaethau gwaith cartref
Eisteddfod yr Urdd



Rydym yn hynod o falch o nifer o'n disgyblion sydd wedi profi llwyddiant cenedlaethol yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd gan ddod i'r brig mewn sawl adran.

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'n disgyblion ym mlwyddyn 8 sydd wedi ennill gwobrau yn adran Celf a Chrefft yr Urdd yn genedlaethol. Mae Catrin Beech 8S wedi ennill y wobwr gyntaf trwy Gymru gyfan am Graffeg Cyfrifiadurol i flynyddoedd 7 i 9 a hefyd Elain Lewis wedi dod yn ail trwy Gymru am Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol ar gyfer bl 7 - 9. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy. Bydd eu gwaith yn cael ei arddangos ym Mae Caerdydd lle bydd Eisteddfod yr Urdd yn digwydd rhwng Mai 26 – 31.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i'r canlynol ar ddod i'r brig yn y cystadlaethau llenyddol yn Eisteddfod yr Urdd eleni :

- Leisa Gwenllian - 1af - Ymson dan 25 oed
 - Nel Jones (bl 10) 2il - Ymson dan 25 oed
 - Twm Herd - 2il - Rhyddiaith dan 19 - stori ar y testun "Chwyl dro"
 - Seren Bowen - 3ydd - Rhyddiaith dan 19 - stori ar y testun "Y Pabi Gwyn".
- Mae'n dipyn o gamp gwneud argraff yn y cystadlaethau hyn oll – da iawn chi a daliwch ati i greu a chyfansoddi!



Llwyddiant canwio Arbennig Anya
Wharton



Oherwydd ei llwyddiannau a'i safle rancio cafodd Anya Wharton blwyddyn 8 ei dewis i gystadlu yn y gyfres Pan Geltaidd o rasys y tymor hwn. Mae'n ffrainc cael ei dewis gan ei fod yn golygu bod yn un o nifer fechan o athletwyr yn cynrychioli Cymru. Mae hefyd yn rhoi'r hawl i Anya wisgo cit tîm Cymru a chael yr hawl i gael sticeri draig goch ar ei chanŵ a'i helmed. Dyma'r rhan mae hi'n hynod gyffrous ynglŷn â fo wrth gael ei dewis i gynrychioli ei gwlad! Roedd y räs gyntaf ar ddiwedd Ebrill a chyn hynny treuliodd amser mewn gwersyll hyfforddi yn yr Alban rhwng Ebrill yr 8fed a'r 14eg. Yn cystadlu yn erbyn pymtheg o ganŵyr eraill yn yr adran canwio i enethod dan 14 oed enillodd Anya ei räs! Bydd yn awr yn mynd ymlaen i gystadlu yn chwaraeon Lloegr yn Nottingham ar ddiwedd Mai ac yna yn y gystadleuaeth yng Nghymru ym mis Mehefin. Mae'n gobeithio gallu ennill y ddwy räs hon i ddod yn bencampwr Pan Geltaidd. Da iawn ti hyd yma Anya a phob lwc gyda'r rasys yr haf yma.

Prentisiaeth i ddau o flwyddyn 13



Llongyfarchiadau mawr i ddau o'n disgyblion o flwyddyn 13. Yn dilyn proses fanwl mae Cai Morgan a Iolo Roberts wedi cael eu derbyn i ddilyn prentisiaethau gyda chwmni Airbus ym Mrychdyn. Rydym yn dymuno'r gorau i'r ddau pan fyddant yn cychwyn ar eu gyrfa gyda Airbus ym mis Medi.

Diolch Dymuna Dylan a'r teulu ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad ar golli brawd ac ewythr annwyl, Gareth Jones, 3 Bro Deiniol, (gynt o Lleiniau). Diolch arbennig i Dylan a Jane, E.W Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr ac i Canon Robert Townsend am y gwasanaeth. Diolch hefyd am y rhoddion hael er cof am Gareth tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.

Hoffai Eirian Jones, 11 New Street, ddiolch o galon i'w phlant, teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen

Cyfarfu'r aelodau ar Fai 28ain. Derbyniwyd 4 cais am gymorth, a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Clwb Snwcer - £600

Merched y Wawr - £300

Ysgol Feithrin - £700

Seindorf Arian Deiniolen - £700

Er gwybodaeth, fe sefydlwyd y Gronfa yn wreiddiol yn ôl yn 1980 ac ers hynny, mae cryn filoedd o bunnoedd wedi eu rhannu rhwng mudiadau'r pentref sydd wedi rhoi cais am gymorth. Mae ffigwr o oddeutu £2,000 yn arferol yn cael ei rannu bob ryw 2 flynedd. Mi fyddai'n braf gallu rhannu mwy gyda mudiadau'r pentref yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol anodd presennol, ac felly gofynnir yn garedig pe byddai unrhyw un yn dymuno cyflwyno rhodd i'r gronfa, fe'i rhoddir tuag at yr arian arferol gan obeithio y byddwn yn gallu rhoi mwy o gymorth i fudiadau'r pentref yn y dyfodol. Ysgrifennydd y Gronfa yw Glyn Gruffudd. 3 Hafod, Clwt y Bont, LL55 3DG.



DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

GŴYL DEINIOLLEN 2019

Dydd Mercher, Mehefin 12

Ras 10k Deiniolen

I gychwyn 7:00 y.h o Rhydfadog a diweddu yn yr ysgol

I gofrestru - deiniolen10k@btinternet.com

Dydd Sadwrn, Mehefin 15

Cystadleuaeth Pŵl, Wellington 5.00, blwyddyn 7 i oedolion

Noson caws a gwin yng nghwmni y Breninesau ers 2010 - Tŷ

Elidir Deiniolen 6:00 y.h -

Nos Sul, Mehefin 16

Cyngerdd y Coroni gyda disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi -

Eglwys Crist Llandinorwig 6.00

Cwis - Wellington 8.00

Nos Lun, Mehefin 17

Disgo - Ysgol Feithrin 6.00

Cystadleuaeth Darts yn y Wellington am 7:00 y.h

Nos Fawrth Mehefin 18

Helfa Drysor a BBQ - Tŷ Elidir 6.00

Dydd Mercher Mehefin 19

te bach gyda Emrys Jones 'Tyd am Dro Co' - Tŷ Elidir 1.00

Ras y Plant - Cofrestru a cychwyn o'r ysgol 6:00 y.h

Nos Iau, Mehefin 20

Mabolgampau - Cae Bwthyn - 6.00

Nos Wener, Mehefin 21

Cystadleuaeth Snwcer - Clwb Snwcer - 6.00

Dydd Sadwrn, Mehefin 22

Diwrnod y Carnifal - gorymdaith o Rhydfadog am 1.00 gyda Seindorf Deiniolen yn arwain. Nifer o weithgareddau ar Cae Bwthyn gan gynnwys stondinau, castell neidio, taith mul a llawer mwy.

Codi arian i Ardd Alzheimers Ysbyty Gwynedd

Yn ddiweddar trefnwyd diwrnod i godi arian tuag at Ardd Alzheimers yn Ysbyty Gwynedd gyda Chyfeillion Ysbyty Gwynedd a staff Santander, Caernarfon. Yn cymryd rhan roedd 'Elvis' (Wynne Roberts). Codwyd mil o bunnau, a gyda chynllun 'punt am bunt' Santander, cyflwynwyd £2,000 yn rhodd. Dymuna'r Cyfeillion ddiolch i reolwraig a staff cangen Caernarfon am eu cefnogaeth i'r ymdrech.



CWMYGLO

Croeso Adref Pleser oedd cael croesawu Alison a'i merch fach, Seren, adref am wyliau o'r Unol Daleithiau. Mwynhaodd Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, dair wythnos ddifyr iawn yng nghwmni ei merch a'i wyres fach.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau bnawn Mawrth, 16 Ebrill, yn festri Eglwys Sant Mair. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Pat. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth nifer o'r aelodau. Cafwyd cofnodion o bwyllgor mis Mawrth gan Auriel a phasiwyd eu bod yn gywir.

Darllenwyd yr emyn 'All Things Bright and Beautiful' gan Auriel a chafwyd hanes difyr am yr awdures, sef Francis Alexandra ganddi. Mwynhaodd pawb yr hanes.

Yr oedd y lluniaeth yng ngofal Auriel a Pat a diolchwyd iddynt gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Marjorie. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cafwyd gwahoddiad gan aelodau gyda'r nos i ymuno â nhwbnawn Llun, 19 Mai, yn Feed My Lambs i gael te prynhawn. Cafwyd gweddi gan y Parch Jeffrey Hughes a mwynhawyd te blasus iawn. Diolchodd Auriel i'r gwesteion a soniodd am yr ŵyl flodau am bedwar diwrnod yn eglwys Sant Mair i ddathlu canmlwyddiant y gangen, i orffen gyda Chymanfa Ganu ar y nos Sul.

Cyfarfod nesaf, Cymun Bendigaid am 10 o'r gloch Mehefin 19 i agor yr Ŵyl Flodau.

ECO'r Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr “Eco”, bu’n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw’r “Eco” allan o’r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.

LLANBERIS

Eifion Roberts, Sw* n-y-Gwynt,
Ffôn: 870740

Eglwys Sant Padarn - Enwi'r Ddol

Enillydd y gystadleuaeth uchod oedd Mrs Hefina Jones, Plas Pengwaith, Llanberis. Diolch i Menter Fachwen am y rhodd o'r ddol ac i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaethau Capel Coch

Mehefin

9fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

16eg am 10yb: Parch Charles Wyn Jones

23ain am 10.30yb: Oedfa Teulu

30ain am 10yb: Parch Eifion Wyn Williams

Gorffennaf

7fed am 10yb: Mr John Roberts, Waunfawr

14eg am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

21ain am 10yb: Mr Gwilym Charles Williams

Gwasanaethau Jerusalem

Mehefin

23ain am 2yp: Mrs Nerys Parri Griffiths

30ain am 2yp: Canon Idris Thomas

Gorffennaf

7fed am 2yp: Parch John Pritchard

21ain am 2yp: Parch Cath Williams

ECO'r Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr “Eco”, bu’n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw’r “Eco” allan o’r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

▼
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllïan@cynulliad.cymru

Apêl Cyfeillion Eglwys - St Padarn – Church Friends Appeal



Eglwys St Padarn Church

Llanberis

Dydd Sadwrn ~ Saturday

Mehefin ~ 29 ~ June

7.30pm

Wynne Roberts

Bar

£10.00

(Yn cynwys Bwffe a 1 Gwin / Inc Buffet and 1 Wine)

Tocynnau/Tickets

Heather : 07867982518—Dilys: 01286 871423



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

▼
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948

williamshy@parliament.uk

MENTER FACHWEN YN MINNESOTA



(yn nhrefn y cloc) Gareth Roberts o Menter Fachwen yn yr Expo yn Minneapolis; Y darlith ym Mrifysgol Minnesota yn ystod yr Expo; Yn ystod y cyflwyniad yn y 'Celtic Junction' yn St.Paul; Clawr llyfr Martha Davies sydd ar gael yn y dalaith; Gyda nifer o disgynyddion y Cymry yn Mankato.

Mae darllenwyr cyson yr Eco yn ymwybodol o waith y 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen' gyda'r holl weithgareddau (y teithiau cerdded a'r arddangosfeydd) yn ymddangos yn gyson ar ein tudalennau.

Ond nid yw pawb yn gyfarwydd a'r cysylltiad efo UDA.

Tua 3 mlynedd yn ol, daeth dyn o Minnesota i weld a dysgu am waith y Cynllun Cerdded a Darganfod yn Llanberis. Ei enw oedd Hywel Roberts (dim perthynas i Gareth), o Arthog ger Dolgellau yn wreiddiol. Aeth i fyw i Winona, Minnesota 27 mlynedd yn ol. Roedd yn ein hardal yn gwneud gwaith ymchwil a sefydlu busnes newydd yn America dan yr enw 'Wild Wales Walkabouts'. Y bwriad oedd i ail-gysylltu yr Americanwyr (os o dras Cymreig neu beidio) a'r hen wlad – a hynny drwy drefnu teithiau yma i weld a chael profiad o'r 'wir Gymru' ac nid eu bysio i Gastell Caernarfon am brynhawn a'u bysio nol i Gaer wedi hynny!

Roedd Hywel mor hoff o ethos y Cynllun Cerdded a Darganfod – sef crwydro'r hanesion a llefydd na welch mewn unrhyw 'guidebooks' – mae'r ddau wedi bod yn cyd-weithio ers hynny.

Yn fuan ar ol ei ymweliad gwreiddiol i weld Gareth, rhoddodd Hywel wahoddiad iddo i rannu gwreiddin yn yr 'Outdoor Adventure Expo' yn Minneapolis, Minnesota a gofynnwyd i Gareth roi sgwrs am ein hardal i gynulleidfa o bron 200 o bobl yn yr Expo.

Roedd hynny yn gymaint o lwyddiant, fel ycafodd Gareth wahoddiad eto i'r Expo y flwyddyn hon, ond y tro hwn gofynnwyd iddo roi cyfres o sgwrsiau mewn sawl lleoliad led led talaith Minnesota ar ein hiaith, treftadaeth, hanes lleol, y chwareli, statws Awyr Tywyll Eryri ac yn arbennig ein chwedlau. Cynhalwyd pedair noson arbennig yng Nghanolfan Hanes Winona, Canolfan y 'Celtic Junction' yn St.Paul, yn yr Expo yn Minneapolis eto ac yn olaf mewn Canolfan Hanes yn nhref Mankato.

Roedd yn brofiad anhygoel, meddai Gareth. Anodd credu bod y cynulleidfaoedd yn llawn ond wedi dweud hynny, wrth gwrs, roedd y dalaith yn ardal lle sefydlodd nifer fawr o Gymry Cymraeg o'r 1840au ymlaen. Nid yn unig bu iddynt sefydlu pentrefi eu hunain yn ystod y blynyddoedd cynnar, ond sefydlwyd capeli hefyd (gyda un neu

ddau yn dal yn bodoli). Mewn siopau llyfrau yn y dalaith fe welch lyfrau am y Cymry yn Minnesota – yr enwocaf gan y diweddar Martha Davies.

Cafodd Gareth gyfarfod sawl disgynydd o'r ymsefydlwyr cynnar yn cynnwys merch gyda'r enw canol 'Wigley' (canu cloch?). Hefyd cyfarfu a Mary Mergenthal – cyn perchenog 'Ninnau' (papur y Cymry yng Ngogledd America). Ond ar ei deithiau o un pen y dalaith i'r llall dros gyfnod o ddeg diwrnod, rhyfeddodd Gareth ddysgu am y cysylltiadau sydd gennym o hyd. Yn ol Gareth mae ymwybyddiaeth o Gymru fel 'gwlad' wedi cynyddu yn aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. "Mae rhaid i ni gymeryd mantais o hyn", meddai, "ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud y 'cysylltiadau' yma eto".

"Mae sawl rheswm paham mae'r Americanwyr wrthi'n 'darganfod' eu cefndir 'Cymreig' " meddai Gareth, "Un ohonynt yw bod cymaint ohonynt yn gwneud eu prawf DNA trwy gwmiau fel yr 'Ancestry.com' ac yn darganfod mai o dras Cymreig y maent. Hefyd, o ddifri, un o'r pethau gorau digwyddodd i ni oedd llwyddiant ein tim pel-droed yng nghystadlaethau 'Euro16'. Roedd y twrnamaint yn fyw ar sianelau teledu yr UDA a'r Americanwyr wedi gwirioni gyda 'Cymru'".

Mae pethau fel yna yn newid y tirwedd. Eleni, darlledwyd cystadlaethau Rygbi y Chwe Gwlad yn fyw yn America am y tro cyntaf. Roedd nifer gwylwyr y gem rhwng Cymru a Lloegr yn ei miliyniau.

Ond o'r profiad o gynnal y nosweithiau yn Minnesota mae'n amlwg hefyd bod ein ardal yn leoliad mae gan cymaint o Americanwyr diddordeb mewn dod i ddarganfod. Mae Gareth a Hywel o'r 'Wild Wales Walkabouts' wedi gweld mai y tric yw cael yr Americanwyr i ddod yma am y tro cyntaf. "Wedi hynny", yn ol Hywel "maent yn dod yn ol dro ar ol tro. Ac wrth gwrs, mae'n hynod bwysig ein bod yn cyrraedd allan iddynt a dyna beth yw bwriad y cyd-weithio rhwng Menter Fachwen a 'Wild Wales Walkabouts'.

O ganlyniad, erbyn i chi darllen yr erthygl hon bydd y Cynllun Cerdded a Darganfod a Hywel Roberts wedi croesawu criw arall o'r Americanwyr yma i 'gerdded a darganfod' ein hanes a llwybrau coll – na welwyd mewn unrhyw arweinlyfr!

Croeso'n ôl i Fws Whiteway.



Yn 1958 prynodd O.R.Williams, Cwmni Whiteway, fws ail-law gan Wallace Arnold yn Leeds. Roedd y bws wedi ei werthu yn newydd i Sunbeam Coaches yn Torquay yn 1949, a'i liwiau oedd gwyrdd a hufen. Prynwyd y bws gan Whiteway er mwyn cario trigolion Chinead dinas Lerpwl oddi yno i ardal Beddgelert a'r cylch i ffilmio "The Inn of the Sixth Happiness" gyda Katharine Hepburn a Robert Donat yn actio'r prif rannau. Prynwyd bws arall hefyd – KWP 577 – tua'r un amser oddi ar Gwmni Ketley o Swydd Efrog.

Arhosodd y bws gwyrdd a hufen gyda Chwmni Whiteway hyd 1975, yn rhedeg gwasanaeth dyddiol yn yr ardal, ac yn 1977 fe'i gwerthwyd i ŵr o'r enw Peter Penfold o Swydd Hertford. Erbyn 1984 roedd y bws wedi colli ei rif cofrestru, ond yn dilyn dadl enfawr efo Swyddfa'r DVLA yn Abertawe, fe'i hail feddiannwyd. Cadwyd y bws mewn sied ar fferm hyd 2007 heb wneud unrhyw waith adnewyddu arno. Yn y flwyddyn honno, fe'i prynwyd gan Wyddel o'r enw Bart Keaney a chafodd ei anfon i amgueddfa yn Suffolk i'w adnewyddu – a'r cyfan oherwydd fod y perchennog newydd wedi arfer teithio i'r ysgol pan yn fachgen bach ar fws tebyg iddo!

Erbyn 2010 roedd y bws yn teithio ar ffyrdd cyhoeddus unwaith eto am y tro cyntaf ers blynnyddoedd. Ac yna, yn 2017 daeth y bws 'yn

ôl adra'. John Lloyd Williams o Gaernarfon a'i prynodd, a hynny wedi chwe wythnos o ddadlau ynglŷn â'i bris efo'r Gwyddel. Roedd John eisoes yn berchen ar un arall o hen fsys Cwmni Whiteway – o wneuthuriad Bedford, rhif cofrestru DCC 125. Roedd wedi cymryd 26 o flynyddoedd i John adnewyddu hwnnw yn ei oriau hamdden, ac y mae'n cael gyrru ar ffyrdd cyhoeddus ers 2006.

Mae lluniau'r ddau fws i'w gweld yn llyfr cynhwysfawr Bill Rear ar Gwmni Whiteway – enscyclopedia i'r rhai sydd a diddordeb yn yr hen 'Fsys Gwyn'.

Bu'r ddau fws yn cael eu dangos ym mhenwythnos Fictoriana Llandudno y mis diwethaf, gan gario teithwyr o amgylch y Gogarth. Yno y tynnwyd un o'r lluniau gan Gareth Pritchard, sy'n byw yn Llandudno, ond yn wreiddiol o Dan y Coed, ac yn cofio'r 'Bysus Gwyn' yn troi yng ngwaelod gellydd Ceunant. (Tybed pam na ddeuent yn eu blaenau drwy Dan y Coed, Bryngwyn a Llanrug am Gaernarfon?).

Mae John Lloyd Williams a Garem Jackson yn awyddus i ychwanegu at y wybodaeth yn llyfr Bill Rear, ac yn apelio am atgofion, gwybodaeth a lluniau yn ymwneud â'r cwmni. Gallwch gysylltu ar e-bost johnlloydwilliams@btinternet.com ar y ffôn 07801240512 neu anfon ato yn 78 Cae Gwyn, Caernarfon LL55 1LL.

CEUNANT Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)


Dymuna Susan, Emyr, Ifan a Mared, Pant Hyfryd, Ceunant, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl.

Bydd y rhoddion hael a gasglwyd yn mynd tuag at Ganolfan Felin Fach, Pwllheli.

NANT PERIS

Diolch Fe ddymuna Prydwen, David, Iwan, Siân a'r teulu i gyd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli Melvyn yn ddiweddar. Yn sgil haelioni pawb, casglwyd swm teilwng iawn i'w rannu rhwng Meddygfa Llanberis a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd.

Diolch hefyd yn arbennig i Meinir am ei thrylwyrdd a'i gofal ac i'r Parch. Robert Townsend am ei garedigrwydd yntau.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Cyrnant

Mae fferm Cyrnant yn Y Waunfawr yn siŵr o fod yn un o'r ffermydd hynaf, os nad yr hynaf yn yr ardal. Credir fod yr hen fferm sydd yn perthyn i Stad Glynllifon, fod yn dyddio'n ôl hyd at o leiaf yr unfed ganrif ar bymtheg os nad mwy na hynny. Yn gysylltiedig â Chyrnant am ganrifoedd roedd teulu'r Jonesiaid, sef teulu o amaethwyr a chertwyr adnabyddus yn yr ardal. Pan, ym mis Tachwedd 1950 cyhoeddodd Richard Jones, sef yr olaf o'r deiliaid, ei fod yn rhoi i fyny'r denantiaeth, torrwyd cysylltiad teuluol â'r hen fferm oedd yn dyddio'n ôl dros bedwar cant o flynyddoedd. Roedd Richard Jones wedi bod yn diodde o anhwylder ac, yn dilyn cyngor gan y meddyg, penderfynodd adael ei gartref yn y Waunfawr a myned i ffermio ar dir mwy gwastadol yn nes ar y môr. O ganlyniad, ac fel y cyfeiriwyd, ymadawodd y ffermwr 60 oed gyda'i briod a'i unig fab, Richard Alun, o'r Cyrnant a myned i ffermio i Fryn Beddau yn y Bontnewydd, sef yr union fferm lle bu ei ddiweddar frawd, Ifan Jones, yn ffermio rai blynyddoedd ynghynt.

Fferm oddeutu naw deg acer yw'r Cyrnant, a saif mewn llecyn braf yng nghysgod clogwyn coediog, un a adwaenid yn lleol fel Clogwyn Cyrnant. Amgylchynir y tŷ a'r adeiladau allanol gan goed derw talgryf a phraff, gyda'r tir ar yr un llaw ar rediad syth hyd at Afon Wyrfa, ac ar y llaw arall, ffordd gul yr Alltgoed Mawr yn arwain yn serth a throellog hyd at y Lôn Wen a phentref Rhosgadfan. Adeilad un llawr oedd yr hen dŷ fferm yn y dyddiau cynnar, gyda distiau derw isel a hen simdde fawr a phopty mawr tân glo yn y gegin a defnyddid i goginio a chrasu bara haidd. Lloriau pridd oedd i'r ystafelloedd bryd hynny, ac roedd y modd y'u gwnaethpwyd yn hollol unigryw. Deuai'r dynion â llwythi o bridd i'r tŷ ac wedi ei daenellu'n weddol wastad ar y llawr, anfonid y cŵn i gyrchu'r defaid i'r caeau a'u danfon i'r ystafelloedd a'u gadael am rai oriau i gerdded a sathru yn y pridd. Byddai'r llawr wedyn yn soled a chaled, ac ar y diwedd defnyddiwyd estyllen hirbren ar yr wyneb i'w lyfnhau a'i orffen yn wastad.

Ar wahân i fod yn ffermwyr profiadol, roedd y Jonesiaid yn gertwyr hynod boblogaidd. Roeddynt yn arbenigwyr ar drin ceffylau a byddai yn y Cyrnant wyth o geffylau ar un amser, ynghyd â nifer o droliau a wagenni. Arferai Richard (tad Richard Jones) ac Evan Jones, ei daid, a'i gyn-daïd cyn hwnnw, gario nwyddau a glo o Gaernarfon i'r ardaloedd o gwmpas, ynghyd â blodiau o'r melinau, a cherrig a llechi o'r chwareli cyfagos fel Cefndu, Cilgwyn, Cors-y-Bryniau a Moeltryfan. Ond yn sicr y gwaith mwyaf bryd hynny oedd cludo'r seidin haearn a gloddiwyd ym mhyllau'r Garreg Fawr a'r Ystrad o'r mynydd i'r seidin yn Nant-y-Betws. Byddai'r wagenni trymion yn rhoi straen anferthol ar y ceffylau ac, er mwyn diogelwch, rhaid oedd eu tywys i lawr y llethrau yn araf mewn ffurf igam-ogam rhag anffawd a damwain.

Yn dilyn marwolaeth Richard Jones (y tad) yn 76 mlwydd oed ym 1912, rhaid oedd i'r Richard Jones ifanc gamu i'r bwlch a chymryd drosodd yr awenau o redeg y busnes. Roedd hyn yn faich enfawr ar ysgwyddau'r llanc ifanc 22 oed, ond er yr holl gyfrifoldeb wynebodd yr her gydag awch a brwdfrydedd, gan lwyddo i ddilyn esiampl ei dad yn ddidrafferth. Erbyn hyn, roedd datblygiadau a newidiadau sylweddol wedi eu gwneud yn y gwaith haearn. Oherwydd anallu y cwmni rheilffordd yn N.W.N.G.R. (North Wales Narrow Gauge Railway) a pherchnogion y gwaith haearn i gytuno ar delerau (gwahaniaeth o ddimai y dunnell) penderfynodd cwmni'r Gwaith Haearn fuddsoddi a sefydlu peirianwaith i gludo cynnyrch y mwyngloddiau mewn bwcedi enfawr ar wifrau dros fynydd Moel Eilio i stesion Llanberis. Yn dilyn yr holl ddatblygiadau cwtogwyd rhan helaeth o waith y certiwr ifanc, a chyda'r arian wedi gostwng, roedd y dyfodol yn edrych yn ansicr iawn iddo. Bu'r gwaith haearn yn llewyrchus hyd at ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ac, yn hynod iawn, Richard Jones gariodd y llwyth olaf oddi yno, sef celfi o eiddo cyn oruchwyliwr y gwaith, sef y diweddar John William Thomas, Bryn Melyn, Waunfawr, a fu farw ar y 18fed o Fehefin 1918 yn 68 oed, ychydig fisoedd cyn i'r pyllau gau.

Wedi i'r gwaith haearn ddod i ben, treuliodd Richard Jones y rhan fwyaf o'i amser yn gweithio adre ar y fferm, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu a thyfu llysiau, ynghyd â chorddi a chynhyrchu llaeth a chaws a menyn ar gyfer eu gwerthu. Gan nad oedd trydan ar y fferm bryd hynny, cynhyrchwyd y pŵer drwy ddull olwyn ddŵr, gyda'r llyn bychan ar y cae cyfagos yn cyflenwi digonedd o ddŵr ar gyfer pob gorchwyl. Hefyd ar y fferm roedd hen beiriant arbennig a ddefnyddiwyd yn un swydd ar gyfer nithio'r plisg a'r us oddi wrth y grawn, a chredir nad oedd yr un dyrnwr na pheiriant o'r fath yn y wlad bryd hynny i'w gymharu â'r hen nithiwr yn y Cyrnant i wyntyllu a chynhyrchu grawn pur a glân.

Clywais fel byddai Richard Jones adeg yr Ail Ryfel Byd yn mynd o gwmpas yr ardal gyda throl a cheffyl yn dosbarthu maip a rwdins o amgylch y tai, a'r trigolion bryd hynny yn hynod werthfawrogol o'i haelder a chymwynasgarwch ar amser mor ansicr a bwyd yn brin.

Cofiaf pan yn blentyn fynd i'r 'Cyrnant Newydd' i gael te bnawn Sul, a Richard Jones yn fy nghodi 'i gael reid' ar un o'r ceffylau gwedd yn y cae. Cyn troi am adre, aeth i'w boced a rhoi pisyn chwe cheiniog yn fy llaw a dweud,

'Yli, hwda fo, i ti gal prynu taffi buwch am fod yn hogyn mor dda!' Pnawn Sul i'w gofio!

Gwilym Morris Jones

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader 01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Oedfa Cymorth Cristnogol

Ar derfyn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, Mai 12 – 18, cafwyd cynulliad cryno i oedfa arbennig nos Sul, Mai 19eg. Defnyddiwyd adnoddau o'r Gwasanaeth a drefnwyd gan yr elusen ar y thema "Cyd-sefyll yn enw Crist." Cymerwyd rhan gan G. Hefin Jones a oedd wedi dod â deunydd yr oedfa ynghyd gyda Einir Gwyn, Ifanwy Jones, Lowri Prys Roberts, Iris Rowlands a Robert John Williams yn cymryd rhannau pellach. Dangoswyd ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol oedd yn rhannu storïau am anghenion dwys merched yn Sierra Leone. Tynnwyd sylw hefyd at y ffurflen gais i'w hanfon yn bersonol gennym fel unigolion i Ganghellor y Trysorlys i weithredu ar frys er dileu dyledion sy'n llethu y wlad yn dilyn y benthyciad wnaed i ymateb i argyfwng Ebola yn 2014, a dyledion newydd gwledydd sy'n datblygu yn y dyfodol. Gwnaed casgliad arbennig i Gymorth Cristnogol yn ystod yr oedfa.

Oedfaon Mehefin am 5 yr hwyr

2: Parch Marcus Wyn Robinson - Gweinidog

9: Gwasanaeth Sul y Pentecost gyda'r Canon Idris Thomas, Deiniolen

16: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

23: Parch Hugh Pritchard, Llangefni

30: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

Llongyfarch Llawenydd yw llongyfarch Dafydd a Moira Ellis, Gweledfa, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fai 17eg. Ynghyd â dathliad gyda'r teulu a chyfeillion cafodd y ddau fwynhau mordaith hyfryd i ardal Llychlyn. Ers i'r ddau symud i'n plith o Ddolwyddelan gyda'r plant Richard a Sally yn 1975 mae eu cyfraniad i'r pentref wedi bod yn un clodwiw, gyda chefnogaeth ddiflino i'r gymdeithas leol a'u dawn artistig a chywrair ym maes garddwriaeth ac amrywiol grefftau wedi ennyn edmygedd arbennig llawer ohonom dros y blynyddoedd.

Sefydliad y Merched Yn ystod mis Mai bu nifer dda o'r aelodau yn dilyn y cyrsiau undydd ym Mhlas Tan y Bwlch - crefftau dan ofal Anita Long, hanes yng nghwmni Gareth Roberts, Menter Fachwen, a'r cwrs arlunio gyda Christine Garwood.

Yng nghyfarfod diweddar y gangen leol dan ofal y llywydd, Pat Jones, cafwyd cyfle i drafod Argymhellion Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched a gynhelir eleni yn Brighton. Pleidleisiwyd yn gadarnhaol o blaid y ddau fater gerbron, "Decline in local bus services" a "Don't fear the smear". Nid oedd y siaradwraig wadd wedi gallu bod yn bresennol ar y noson felly manteisiwyd ar y cyfle dan ofal Carol Houston i ymarfer y gêm Boccia a dewis tîm i fynd ymlaen i'r rownd nesaf cyn y gêm derfynol yn Y Ganolfan, Llanberis, ar Fehefin 7fed am 7 o'r gloch. Mae nifer o'r aelodau hefyd ar hyn o bryd yn gweithio yn ddiwyd tuag at gystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau. Wedi cystadleuaeth ar Fai 21ain yng Nghaernarfon rhwng pedwar grŵp y Ffederasiwn, bydd yr enillwyr yn cynrychioli y rhanbarth yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd.

Ymddiheuriadau - yn anffodus oherwydd problem dechnegol, ni chafodd newyddion Caeathro ei gynnwys yn y rhifyn dwythaf! Dyma felly newyddion y pentref dros fis Ebrill a Mai.

NODYN O DDIOLCH: Dymuna Catrin, Hywel ac Elan (13 Erw Wen) ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad ac am eu holl gaerdygrwydd yn ystod gwaeledd ac yn dilyn marwolaeth Dewi. Codwyd cyfanswm o £2,000 er cof am Dewi, a bydd yr arian hwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr elusennau Awyr Las ac Ymchwil Cancr y Gogledd Orllewin.

CYDYMDEIMLO: Fel pentref, estynnwn ein cydymdeimladau cynhesaf at deulu Roscoe (Perthi, Rhos Bach), o golli eu nai, Sam, oedd yn 7 oed yn Llundain.

CAPEL: Ar yr 2il o Fehefin bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson. Gweinyddir y Cymun. Bydd hefyd cynrychiolaeth o Henaduriaeth Arfon yn bresennol i arolygu proses ethol Blaenoriaid i'r Capel. Ceisiwch sicrhau eich presenoldeb i gael cyfle i leisio eich barn. Ar y 16eg Mehefin bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parch. Eric Roberts.

CYNLLUN EFE: Cynhaliwyd 'Hwyl a Sbri' arall ar ddydd Sul y 12fed o Fai yng Nghanolfan y Capel. Diolch i bawb a ddaeth i rannu a mwynhau. Bydd manylion y cyfarfod nesaf yn y rhifynnau i ddilyn.

CROESO: Croeso mawr i Llion Iwan wedi iddo symud i fyw i'r pentref yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei benodiad fel 'Cyfarwyddwr Cynnwys' gyda Cwmni Da yng Nghaernarfon.

Croeso hefyd i Mr. a Mrs. David Ian Price a'r teulu sydd wedi symud i Cefn Rhos Isaf yn ddiweddar. Braf hefyd yw clywed fod Rhiannon a Derwyn Roberts wedi setlo yn eu cartref newydd yn Stad Glandwr.

YMGYRCH HEL YSBWRIEL: Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi'r ymgyrch hel ysbwriel yn y pentref yn ddiweddar – fel y gwelwch o'r lluniau, roedd yr ymdrech yn wych. Da iawn bawb!



TYNFA MISOL

EBRILL 1af (£40) – Rhif 70: Berwyn Roberts (Sea View);
2il (£25) – Rhif 72: T & M Evans (Plas Treflan);
3ydd (£15) – Rhif 54: Harriet Roberts (5 Erw Wen);
4ydd (£5) – Rhif 44: Ceri & Steve (9 Bryn Gôf).

MAI 1af (£40) – Rhif 22: L. Williams (Refail);
2il (£25) – Rhif 93: R. Lloyd (2 Rhos Bach);
3ydd (£15) – Rhif 42: P. Everet (21 Rhes Glangwna);
4ydd (£5) – Rhif 72: T. Evans (Plas Treflan).

ECO'r
Wyddfa

DALIER SYLW

Oherwydd trefniadau gwyliau gweithwyr allweddol yr "Eco", bu'n rhaid newid dyddiadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst. (Mae hyd yn oed gweithwyr eich papur bro angen gwyliau!) Bydd angen anfon deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn dydd Sul, 16eg o Fehefin, a daw'r "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener, 28ain o Fehefin. Cofiwch y dyddiad : Dydd Sul, 16eg o Fehefin.



O'r Cynghorau Cyngor Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2019:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 10fed o Ebrill

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Nicola Brown, Gwilym Evans, Bethan Holding (Cadeirydd), Heather Lyn Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc)

Ymddiheuriadau: Olwen Gwilym, Rhys ap Gwilym.

2 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan wahanol benawdau.

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, 13eg o Fawrth 2019, fel rhai cywir.

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Y Fynwent:

Cwblhawyd ailadeiladu ail ran wal derfyn y Fynwent. Soniwyd bod nifer wedi sylwi ar safon uchel y gwaith.

2. Dŵr:

Nodwyd fod amryw o dyllau ar y brif ffordd a grewyd gan lifogydd wedi eu llenwi a bod yna beth gwaith wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd (CG) ger Gardda Bach, ac roedd cwterydd wedi eu gwagio.

3. Lôn Las Peris:

Cwblhawyd y gwaith o roi wyneb newydd ar y llwybr gan CG, ac roedd canmoliaeth i'r gwaith.

4. Cau Gwasanaethau Ysbyty Gwynedd:

Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon oddi wrth y Cadeirydd at nifer o bobl (Vaughan Gething, yr Ysgrifennydd Iechyd, Mark Polin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Gary Doherty, Prif Weithredwr y Bwrdd) mewn perthynas â'r bwriad i gau yr Uned Fasgwlar yn YG a symud y gwasanaeth i Ysbyty Glan Clwyd. Anfonwyd copïau hefyd at yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad lleol.

5. Graean a Halen:

Adroddwyd nad oedd CG wedi llenwi'r biniau halen. Dyma'r ail dro iddynt fethu cyflenwi yn ôl y galw. Gwnaed yr archeb ar ebost i'r Ganolfan 'Galw Gwynedd' ar y 14eg o Chwefror. Gofynnwyd am ddyddiad llenwi ac am anfoneb cyn diwedd Mawrth. Ddaeth dim gair.

6. Digwyddiadau:

Cafwyd y rhestr o ddigwyddiadau mawr a oedd i'w cynnal yn y pentref dros yr haf gan KMJ ac fe'i rhoddwyd ar ebost i'r aelodau.

7. Coed Doctor:

Mae'r giât yn dal heb ei thrwsio.

5 MATERION ERAILL:

1. Gwêl y Chwarel:

Adroddwyd fod tunelli lawer o bridd a cherrig wedi eu symud ar y safle. Mynegwyd pryder y gallai hyn effeithio ar ddŵr wyneb ac achosi llifogydd eto. Holwyd a ellid gofyn a oedd y symud yma yn rhan o'r hyn a ganiatawyd o dan y cynllun i godi'r tai.

2. Y Pabi Coch a Sul y Cofio:

Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor hwn yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am ddosbarthu blychau gwerthu'r Pabi ar gyfer Sul y Cofio, a chasglu'r arian wedyn o'r siopau. Cytunwyd i wneud hynny ar gyfer Llanberis gyda'r Clerc yn trefnu rota o blith y cynghorwyr i wneud y gwaith. Cytunodd y Clerc i gysylltu â'r trefnydd ardal sy'n byw yn Rhosgadfan.

3. Dyfodol Coed Doctor:

Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y safle ar y 15fed o Fai am 7yh yn Neuadd Fach, Y Ganolfan, yn ddibynnol ar bresenoldeb Bob Griffiths o CG.

4. Ffordd Capel Coch:

Cafwyd adroddiad am ddigwyddiad lle bu ond y dim i wraig

oedrannus a'i merch gael eu taro gan feiciwr yn gyrru'n wyllt i lawr Ffordd Capel Coch. Penderfynwyd anfon gair at CG i holi a ellir gosod arwydd i rybuddio beicwyr rhag peryglu bywydau.

5. Plac ar y Cleddyf:

Gofynnwyd pam nad oes unrhyw eglurhad o 'be ydi o' wrth droed y Cleddyf.

6 GOHEBIAETH:

1. HSBC:

Mae'r Banc wedi bod fel pla yn mynnu fod yn rhaid cysylltu i gadarnhau manylion y Cyngor. Oni fydd cydymffurfio mae'r Banc yn bygwth cau'r cyfrif.

2. Cymdeithas Prif swyddogion Cynllunio Cymru:

Mae'r Gymdeithas yn cynnal arolwg o gwsmeriaid y gwasanaeth cynllunio, ac yn holi Clercod am eu profiad o weithio gyda'r gwasanaethau cynllunio yn yr Awdurdodau Lleol.

3. CG - Cau Ffordd:

Rhybudd o'r bwriad i gau ffordd A4086 rhwng 9yb a 12.15yp dydd Sadwrn y 18fed o Fai eleni rhwng Maes Parcio y Parc Cenedlaethol (APCE), Nantperis a Phenygwryd ar gyfer Treiathlon Slateman 2019.

4. DAC Beachcroft:

Nodyn i'r cwmni lwyddo i gael £100 o ad-daliad i'r Cyngor ar ôl i arwydd Croeso Nantperis gael ei ddifrodi ym Mwlch Llanberis. Roedd y can punt cyntaf o'r hawliant yswiriant wedi ei dalu gan y Cyngor.

5. Seafarers UK:

Cais gan yr elusen uchod i'r Cyngor gwhwfan y 'lluman coch', baner y Llynges Fasnach, ar Fedi'r 3ydd, Diwrnod y Llynges Fasnach, ar bolyn neu adeilad dinesig. Penderfynwyd nad oedd hynny yn addas.

6. Llyrhau Diolch:

Nodwyd fod nifer o elusennau wedi anfon llythrau diolch ar ôl derbyn cyfraniad ariannol o'r Gronfa Môn Daliadau.

7 CYNLLUNIO:

Cyngor Gwynedd

- C19/0243/15/LL - estyniadau, newidiadau a chodi modurdy newydd - Tyddyn Charles, Ffordd yr Eglwys, Llanberis - teimlo fod hwn yn estyniad llawer rhy fawr i'r safle. Dywedwyd fod lle i gredu mai tŷ haf/gwyliau oedd hwn ac nid preswylfa barhaol.

- C19/0292/15/LL - codi cerflun 2 medr o uchder ger Llyn Padarn - Bandstand, Llanberis - gwrthwynebu, does dim pwrpas o gwbl i hwn, ac anaddas i'r lleoliad. Mae'n drueni na fu i'r rhai sy'n gwneud y cais ymgynghori gyda'r Cyngor lleol cyn ei gyflwyno. Mae cryn wrthwynebiad i'r syniad a nifer o'r farn fod hwn yn rywbeth arall, fel y Cleddyf, yn ychwanegiad at atyniadau ymwelwyr Llanberis, fel petai dim digon yma'n barod.

- C19/0297/15/LL - addasu fflat llawr isaf i 2 fflat hunan-gynhaliol - Capel Preswylfa, Stryd Newton, Llanberis - dim sylw.

- C19/0324/15/LL - dymchwel yr estyniadau presennol yn y cefn a chodi estyniad newydd yn eu lle - Meifod, Stryd Fawr, Llanberis - dim sylw.

8. LLWYBRAU A'R FYNWENT:

Nodwyd fod un o finiau'r Fynwent wedi diflannu, tybed a gafodd ei ddwyn; a bod dau arall angen caeadau newydd.

Mae dwy garreg fedd ar eu cefnau a thyllau wedi ymddangos mewn un neu ddau o fannau. Ceisir darganfod perthnasau yr ymadawedig er mwyn ailgodi'r cerrig.

Penderfynwyd ar bolisi ar gyfer cerrig coffa sy'n ansefydlog neu beryglus:

1. Wedi derbyn adroddiad neu ar ôl darganfod carreg felly, cysylltu â'r teulu a rhoi mis iddynt ymgymryd â'r gwaith diogelu.

2. Rhoi postyn a rhwymo'r carreg wrtho fel ateb dros dro.

3. Os na adferir y carreg ei gosod i orwedd ar y llawr.



O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 2ail Ebrill 2019

Cofnodion Cyfarfod Sed Fawrth 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion

Lloches Bws Penisarwaun – Yn dilyn cais i Gyngor Gwynedd am gael gosod llwybr ar draws y gwair ger y cysgodfan o gyfeiriad LLys y Gwynt a Bryn Eglwys yn Penisarwaun. Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi amcanbris o £1780, gyda canran o 1/3 oddeutu £600 i'r Cyngor Cymuned. Teimlwyd fod y pris yn uchel os mai ychydig o lwybr ydi o, a gosod 3 slab. Gofynwyd i'r clerc gysylltu yn gofyn yn union be mae'r pris yn gynwys.

Arwydd Lon Cae Metta – Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi arwydd ar y lôn o gyfeiriad lôn Crawia.

Gohebiaeth a materion eraill

Ciosg Rhiwlas – Nid yw'r trydan yn gweithio yno. Cafwyd amcanbris, am ail weirio'r golau newydd a datgyweirio yr un hen. Cytunwyd i gael gwneud y gwaith.



O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar yr 16 o Ebrill

Ysgol Gynradd Cwm y Glo.

Adroddwyd fod Menter Fachwen gyda chynlluniau ar gyfer yr ysgol ond fod angen i'r Cyngor Cymuned gadarnhau eu bod yn gefnogol i'r cais.

Penderfynwyd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod y cynlluniau.

Adroddiad gan y Cyngorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau yng Nghyngor Gwynedd.

Canolfannau Iaith

Penderfynodd y cabinet i ohirio unrhyw doriadau am flwyddyn ond i dreialu gwasanaeth hefo un athro/athrawes mewn un o'r canolfannau i weld os fyddai unrhyw effaith negyddol ar y safonau.

Hyfforddiant Cynllunio

Cafwyd hyfforddiant ar gynllunio a oedd yn trafod rôl y cyngorau cymuned yn y broses .

Roedd cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Llanrug yno ond 'doedd ond tri yno o gynghorau cymuned eraill.

Ysgol Cwm y Glo

Mae'r penderfyniad statudol swyddogol wedi ei wneud i gau'r ysgol ar 31 Awst 2019. Rwyf wedi datgan i'r Awdurdod y bydd yn bwysig i bwy bynnag sydd yn cymered yr adeilad drosodd i sicrhau y bydd cyfle i gael defnydd cymunedol.

Llwybr Aml ddefnydd Cwm y Glo i Llanrug

Rwyf mewn trafodaethau hefo swyddogion y cyngor i geisio gwella diogelwch ar hyd y llwybr

Mae'r groesfan gyferbyn a Dôl Afon dal angen sylw. Gobeithir cael datrysiad yn fuan.

Grant Disgresiwn y Cyngor

Penderfynwyd glynu at y broses gyfredol ond i roi mwy o hysbysrwydd i'r Gronfa

Cynllunio

Tyn y Buarth, Brynrefail – Estyniad a Newidiadau. Dim Gwrthwynebiad

2 Cae Cerrig , Deiniolen – Estyniad un llawr yn y cefn. Dim Gwrthwynebiad

Tyddyn Difyr, Bethel – Estyniad Deulawr ynghyd a chreu anecs Blaen Cae Isaf, Deiniolen – Gosod Caban i'w ddefnyddio fel anecs

Bronant, Bethel – Estyniad i'r uned ddiwydiannol presennol ar gyfer storio cyfarpar offer yn ddiogel

O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – Nid yw'r twll yn y ffordd ar lôn Cae Hywel byth wedi ei lenwi. Mae'r twll bron wrth giât Cae Eboni. Llythyr i Wynedd Eto.

Brynrefail – Nodwyd fod dyn oedranus wedi disgyn i mewn i dwll ar draen ger Trem Eilian, ac wedi brifo a'i gynhyrfu. Cysylltu a Cyngor Gwynedd i'w hysbysu i'w lenwi.

Cae chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd nad oedd neb wedi dangos diddordeb i drwsio'r ffens a gofynwyd i'n contractwr arferol am bris am wneud y gwaith. Adroddwyd fod pris wedi'i dderbyn a penderfynwyd ei dderbyn.

Holiadur cymunedol ar gyfer ymgysylltu a'r gymuned

Dosbarthwyd enghraifft o holiadur i'r aelodau am sylwadau a penderfynwyd symud ymlaen a'i gyhoeddi.

Creu bas-data o gysylltiadau

Penderfynwyd i greu bas data fel gellir rhoi cynnig i drethdalwyr dderbyn gwybodaeth am waith y Cyngor.

Cwrs Ceisiadau Cynllunio

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Cemlyn Jones am y cwrs a fynychodd yn ddiweddar gyda'r

Cyngorydd Beca Brown. Diolchwyd iddo am yr adroddiad a cytunwyd gofyn am gopi o'r sleidiau er mwyn eu rhannu ag aelodau.

Ceisiadau Cynllunio

(a) Penderfynwyd i gefnogi cais am estyniad cefn a balconi yn Afallon, Pantafof Bach, Llanrug am ei fod yn gwella cyflwr yr adeilad.

(b) Penderfynwyd i gefnogi'r cais am fynedfa newydd yn Glandwr, Ceunant oherwydd ei fod yn gwella'r weledfa ac yn ei gwneud yn fwy diogel.

Y Fynwent.

Adroddwyd fod cais wedi'i dderbyn ar gyfer gwasgaru llwch ar fedd. Er i'r Clerc gysylltu a nifer o Gynghorau yng Ngwynedd ac Ynys Môn, does yr un Cyngor wedi cael cais fel hyn. Yn dilyn trafodaeth ar y mater, cytunwyd i beidio caniatáu gwasgaru llwch ar fedd ac i ychwanegu hyn at reolau'r fynwent

Meysydd chwarae

Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn y cyfrifoldeb am y ddau faes chwarae yn Cwm y Glo. Penderfynwyd i roi arwyddion parhaol i fyny.

Hanes lleol ar ffôn symudol – yn y fan a'r lle

Mae straeon diddorol adeiladau, cofebion a lleoliadau yn ardal Llanberis bellach ar gael i drigolion ac ymwelwyr ar eu ffônau symudol.

Mae prosiect HistoryPoints wedi gosod codau QR mewn nifer o leoedd sy'n cysylltu'ch ffôn clyfar neu dabled i'r dudalen berthnasol ar wefan HistoryPoints.org. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw "QR scanner" - meddalwedd am ddim sydd ar gael ar-lein neu o'r "app store". Pan fydd y meddalwedd wedi ei osod ar eich ffôn, actifadwch y meddalwedd a daliwch gamera'r ffôn at y cod QR.

Mae'r holl wybodaeth yn rhad ac am ddim (ac eithrio os oes unrhyw ffioedd data yn eich contract ffôn symudol). Gallwch hefyd ei gael ar eich cyfrifiadur cartref ar wefan HistoryPoints.org.

Cefndir HistoryPoints

Dechreuwyd HistoryPoints ym mis Ionawr 2012 gan Rhodri Clark a Eugene Stevenson fel arbrawf i ganiatáu i drigolion ac ymwelwyr ddarllen hanes lleoliadau ar ffônau glyfar neu dabledi. Yn nhref gaerog Conwy y gosodwyd y codau QR cyntaf.

Yn fuan iawn, bu busnesau lleol yn cefnogi'r fenter trwy noddi rhai o'r tudalennau gwe a chychwynnodd cymdeithasau hanes, amgueddfeydd ac eraill i gyfrannu syniadau a gwybodaeth ar gyfer lleoliadau eraill.

Ymledodd HistoryPoints ac erbyn hyn mae'r prosiect wedi creu tudalennau gwe a'r codau QR cyfatebol ar gyfer 1,500 o leoliadau ledled Cymru. Mae'r pynciau yn cynnwys adeiladau, pontydd, cofebion a safleoedd sy'n gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau diddorol.

Yn ardal Llanberis

Mae codau QR HistoryPoints i'w gweld ar blaciau bychain ar hyd Lôn Las Peris. Maent yn cyflwyno amrywiaeth o hanesion. Un o'r mwyaf poblogaidd yw hanes y storfa fomiau yn hen chwarel Glyn Rhonwy yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Hefyd cewch hanes y torgoch a thrigolion eraill Llyn Padarn, stori sefydlu undeb y chwarelwyr, manylion y bobl ifanc a fu farw mewn damwain hofrennydd ym 1993 a cefndir annisgwyl y lanfa a fu yn wreiddiol yn elfen o'r Gemau Olympaidd 2012.

Yng nghanol y dref, cewch ddod o hyd i hanes Plas Coch, a fu unwaith yn gartref i deulu cerddorol John ac Ellen Williams.

Mae cofeb rhyfel Llanberis yn rhestru enwau'r bobl leol a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn hwyrach, ond nid oes lle ar y gofeb am fwy o wybodaeth. Trwy sganio'r codau QR sydd yn agos at y gofeb, cewch fanylion yr unigolion megis eu hoed, lle y buont farw, enwau rhieni a chyfeiriad lleol.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Plas Coch, Stryd Fawr, Llanberis

Tŷ tref sylweddol a adeiladwyd yng ngwagedd dŵl Peris yw Plas Coch ar gyfer reolwr chwarel lechi leol yn 1865. Gwyddom hyn gan fo'r dyddiad wedi ei dorri ar lintel y cartref. Roedd mewn llecyn sylweddol gyda pherllan i'r de o'r tŷ ac fe fu rhai coed ffrwythau yno tan yn ddiweddar yn 2018. Doedd fawr o Llanberis ddim yn bod ar y pryd a Coed y Ddol oedd yr enw ar y pryd i'r pentref i'r gorllewin o Plas Coch.

Yn 1902 fe ddathlodd 700 aelod o'r Gymdeithas Oddfellows eu pumed ar hugain dathliad gyda chinio mewn pabell ar dir John Williams Plas Coch. Sefydliad er budd Cymdeithas heb gyfraniad na thuedd boliticaidd di'r Oddfellows sydd yn bod hyd heddiw ac yn arbennig yn gwarchod yr anghenus a'r difreintiedig drwy stormydd bywyd ac yn talu at anghenion yr argyfyngus. Rhaid ymaelodi'n rhad i gael y cymorth. (<https://www.oddfellows.co.uk/benefits/>).

Cymdeithas gyfeillgar ymhell cyn sefydlu'r wladwriaeth les genedlaethol.

Cafodd John ddeg o blant ond fe fu farw un ar enedigaeth. Bu ei ferch, Jennie, yn nyrs am dair mlynedd yn Ffrainc drwy'r Rhyfel Mawr. Fel sawl arall yn y cyfnod cafodd y diciâu yn lladdol yn Ionawr 1919 ac fe'i claddwyd a seremoni filwrol yn Le Harve. Cliciwch yma i gael y dudalen goffa ym <http://historypoints.org/index.php?page=in-memory-of-jennie-williamsa>

Bu un o'r meibion farw yn capten llong yn Affrica ac un arall fy'n farw'n Winsconsin, yr UDA. Cafodd eu mab Robert ei apwyntio'n organydd yn eglwys Sant Dewi, Lerpwl yn 1899. Ar y pryd roedd Lerpwl mor Gymreig a llawer tref yng Nghymru.

Organydd mewn capel arall oedd mab arall, sef Orwig. Fe oedd yng nghapel Moriah, Caernarfon, ac yn 1910 cychwynnodd ddysgu 'elfennau cerddoriaeth' yn ysgol elfennol Dolbadarn.

Bu farw John yn 74 ar Ionawr 1907 a bu farw Ellen saith mis wedyn.

Fe arweiniodd William Williams Plas Coch gor bechgyn mewn cystadleuaeth yn Capel Coch, Llanberis yn 1881.

Roedd Morris Williams o Plas Coch yn banydd talentog a mawr oedd y galw arno i gystadlaethau a chyngherddau.

Fe roddodd ei wasanaeth i gyngerdd yn 1889 ar gyfer codi arian i gefnogi Owen Williams o Nant Peris a gollodd ei goes yn y chwarel yn Nantlle a chyflwynwyd £14 iddo.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk


Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The **ROYAL VICTORIA HOTEL**
Snowdonia



Ar ben arall i'r lein



Wel dyna wahaniaeth mae mis yn ei wneud! Yn gyntaf, heddiw, 17/5, daeth y gwenoliaid cyntaf i Crawia, roedd y lle yn berwi ohonynt, fel petai criw newydd gyrraedd. Hefyd mae'r gog yn clecian canu, ac yn byddaru rhai sydd ar lannau Dywarchen. Dda ei gweld o gwmpas y lle yn tydi?

Mae'r 'sgota hefyd yn rhoi tro am y gorau. Mae rhyw frwdfrydedd ofnadwy o gwmpas y lle, mwy na 'dwi 'di weld na'i deimlo ers llawer blwyddyn. Be sy'n gyfrifol am hyn? Wel mae'r pysgota ar i fyny. Mae'r llynnoedd yn sgota'n eithriadol, a be sy'n galonogol dros ben yw'r gweddnewidiad sydd wedi dod i Lyn Padarn, torgoch yn cael eu dal o'r glannau, brithyll arian yn ôl yng nghanol y llyn, dim o'r draenogiaid yn cael ei bachu ac, o bwysigrwydd mawr, mae nifer fawr o sils y gog wedi rhedeg o'r Nant am y môr – ardderchog ar bob cyfri.

Pleser mawr hefyd yw adrodd bod nifer yr aelodau lleol ar gynydd, ond gobeithio na wnaiff Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cyd-deithwyr Dŵr Cymru ddim gadael i safon y dŵr ddirywio unwaith eto. Ond, fel mae pethau ar y funud maent i'w canmol. Dalier ati.

Tra yn Llanberis, mae'r gwaith o adeiladu'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn prysur fynd yn ei flaen. Fel rhan o'r cynllun mae'n rhaid symud pysgod bach sydd ar gyffiniau'r gwaith i leoliadau sydd ddim yn cael eu amharu. Bu rhan o'r rhaglen yma yn mynd yn ei blaen dros yr wythnos a fu, unwaith eto mae newyddion ardderchog fod y rhannau penodedig yma gyda chymysgaeth dda o frithyll brown, cywion eog, sliwod a'r llysywen bendoll. Rai blynyddoedd yn ôl daliais frithyll brown 3 phwys yng ngheg Afon Goch ac roedd yn llawn o'r llysywen yma. Mae'r brithyll yma o hyd mewn câs gwyr, rhaid imi gael atgofion erbyn heddiw! Fel yr adroddodd Eifion Wyn yn 'Camp Llyn yr Onnen' am ei daid a'r eog mawr, mi fydda i yn dal i ddal y brithyll yma tra byddaf!

Mae Melin y Cim wedi bod yn fendithiol i'r Gymdeithas ac, mewn gwirionedd, wedi ein cadw ar dir y byw dros y blynyddoedd pan oedd llif arian bron wedi sychu i fyny. Mae pysgota dyfroedd y Gymdeithas yn gynwysedig i'r rhai sy'n aros yno, a phoblogaidd dros ben ydi hyn erbyn heddiw. Cefais sgwrs rhyw wythnos yn ôl gyda theulu o Gaerfyrddin sydd ar eu trydydd ymweliad. Holais be oedd yn eu denu i bysgota yma pan mae 'sgota mor dda i'w gael ar y Tywi. Roedd ei ateb yn dipyn o syndod i mi,

'Sgota da! Mae'r Tywi ar ei sodlau, does bron dim bywyd pysgodfaol ynddi dim mwy, mae'n cael ei lladd gan orlifiadau o ddŵr silwair.'

Wel diolch i'r drefn does dim problem felly yma – ar hyn o bryd o leiaf. Aeth ymlaen i ddweud bod nifer o Gymdeithasau dalgylch yr afon yn cau i lawr, a rhai o bysgodfeydd enwog preifat yr afon ar werth ac yn ergyd drom i economi'r ardal. Wel, wel, meddwn innau, mae'n rhaid felly ein bod ni'n gwneud rhywbeth yn iawn yma.

Mis diwethaf dywedais fod adroddiad yr Arolygydd oedd yn ymwneud â gwrandawriad cais dadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio newid is ddeddfau pysgodfeydd Cymru i gael ei chyhoeddi ar 15ed o Fai. Does dim eisiau dyfalu nag oes! Gohiriad unwaith eto! Y newydd diweddaraf sydd wedi dod o grombil y senedd 'na yw mai'r dyddiad newydd fydd 3ydd Mehefin. Ond mae'r criw 'na lawr sowth wedi datgan eu bod eisiau ystyried y penderfyniadau cyn iddynt ddatgelu'r cynnwys i ni'r cyhoedd. Er mwyn, o bosib, dim ond datgelu be mae'r gweinidogion eisiau ei ddatgelu. Be oedd pwynt yr holl wariant felly – oes rhywun hefo ateb i hyn? Rhywbeth

tebyg i etholiad Ewrop yn ôl pob golwg, costus dros ben a dim yn meddwl dim. Er hyn mae pryderon mawr ar sut mae'r senedd wedi cynnal archwiliad cyhoeddus gyda rhai yn agos i'r llywodraeth yn llywyddu. Mae digon o feirniadaeth wedi bod ar sut mae ymholiadau eraill – un yn enwedig yn ddiweddar, wedi eu cynnal.

Tra'n disgwyl i'r Seiont gael tipyn o lif, byddaf yn cerdded y glannau i gael golwg a oes rhywbeth o gwmpas ac, fel y dychmygwch, mae sylw rhywun yn cael ei dynnu at ryfeddodau natur. Un peth dwi 'di eu mwynhau ers blynyddoedd lawer yw'r mefus gwyllt sydd, neu i fod yn gywir, oedd yn tyfu ar y Finiog. Ddechrau Mehefin y bydd rhain y barod, pethau bach ydynt ond yn eithriadol o flasus. Am rhyw reswm nid yw ceffylau yn rhyw hoff iawn ohonynt a felly roeddynt yn cael eu gadael i mi. Dros y tair blynedd diwethaf sylwais fod ambell ddafad i'w gweld ar y cae ac, wrth reswm, roedd y mefus ar ben eu rhestr. Yn ystod 2017 roedd lleoliadau'r mefus wedi mynd i lawr i un llecyn bach. Wel, dyna siom, be wnawn heb fy mhryd blynyddol? Penderfynais godi rhyw ychydig o weddill y planhigion a trio eu tyfu yn yr ardd. Yn ystod 2018 fe wnaeth rhai aeddfedu, ond bu'n rhaid rhannu gyda'r deryn du, fo gafodd y rhan fwyaf. Eleni mae crop da iawn yn dechrau troi, a dwi 'di cael rhwyd i'w gorchuddio. Ymhen rhyw ddau fis mae croeso i unrhyw un gael ychydig o'r planhigion, mae'n nhw'n werth chweil, ac am ddim hefyd. Ond cofiwch mi fydd arnoch eisiau mwy, mae rhywun yn mynd yn gaeth i'w blas.

Mater arall sy'n cael llawer iawn o sylw ar y cyfryngau yn ddiweddar yw cyflwr ffitrwydd poblogaeth y wlad, a digon o gynigion be i'w wneud gan yr arbenigwyr. Dim cig eidion, dim cig oen, dim peint, tydi'r criw yma i gyd yn bethau sych, yn dydyn? Beth am iddynt ddweud bwyteu ac yfwch be y mynnoch o fewn rheswm, ond ewch allan i bysgota beth bynnag ddwy waith yr wythnos. Rhwyfo'r cwch ar Padarn neu gerdded gyda'r wialen o Bont Crawia i Llyn Harri. Dyna be fuasai'n eich cadw yn ffit a heini, a chadw'r pwysau i fwrdd. Na, mae hyn yn rhy syml iddynt ei glodfori, ond fel prawf edrychwch ar y criw sy'n rhedeg y Ddeorfa, a'r Gymdeithas yn gyffredinol, rhyw hen hen griw ydynt i gyd! a phawb yn denau fel brwynen, heblaw fi fy hun, wrth gwrs, ond rwyf innau wedi hen fynd heibio oed yr addewid erbyn hyn. Felly i holl boblogaeth y fro - 'sgota amdani! A mae llawer o hwyl a chwerthin hefyd, peth prin iawn heddiw mewn llawer i le. A peidiwch anghofio'r badell.

Yn yr Eco misoedd Mawrth ac Ebrill cyfeiriais at fwriad y Gymdeithas i edrych ar y posibilrwydd o droi'r hen gwt rhwyfau ym Mhenllyn yn rhannol fel llety hunan gynhaliol. Does dim gwrthwynebiadau wedi dod i'r syniad, ond mae rhai wedi gofyn sut y buasai'r adeilad newydd yn edrych o'r bont – wel dyma'r fo i chwi. Gobeithio ei fod yn dderbyniol.

A cyn tawelu am fis arall, rydym wedi cael trelar newydd at waith y clwb. Mae'r hen un ar gael am ddim i unrhyw un sydd â defnydd i'r fath beth. Galwch draw yn y ddeorfa i gael golwg am tua 9.30 y bore o dydd Llun i Dydd Gwener.

Huw Price Hughes

Un funud fach ...

ARYLLYN

Roedd o'r peth tebycaf welsoch chi i ddyn bach Subbuteo, ond ei fod ar ddŵr ac nid ar gae pêl droed. Nid arno fo y sylwais gyntaf, ond ar y llethrau gwyrddion a'r mynyddoedd cadarn. Yn y Daily Post y gwelais y llun trawiadol y dydd o'r blaen: llun hardd i'w ryfeddu o Lyn Padarn a'r Wyddfa, a'r un dyn bach yn padl-fyrddio ar wyneb y llyn.

O weld y llun, roedd yn amhosibl peidio â rhyfeddu at brydferthwch yr olygfa. Mae honno'n gwbl gyfarwydd i mi wrth gwrs. Ond mae'n rhyfedd fel y cawn ein deffro ambell waith i sylweddoli mor arbennig yw'r lle hwn yr ydym yn byw ynddo, wrth weld o'r newydd mor hardd yw ein gwlad, ac yn benodol felly'r ardal hon. Mor freintiedig yw pawb ohonom sy'n byw yn y gornel fach hon o greadigaeth Duw.

Synnwn i ddim mai sefyll i syllu ar yr olygfa ryfeddol y mae'r dyn bach yn y llun hefyd. O bosib ei fod yn ddwy lath o ddyn: mae'n amhosibl dweud ei hyd a'i led, ond rhan o ryfeddod y llun yw hynny. Ar wahân i'r dyn, nid oes yn y llun neb na dim ond y llyn a'r coed a'r mynyddoedd a'r cymylau a'r awyr. Ydi'r dyn ar ei badl-fwrdd tybed yn dweud gyda'r Salmydd, 'Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd'? Ydi o, yn yr unigrwydd yng nghanol y llyn, yn gofyn, 'O ble daw cymorth i mi?' Ydi o, fel minnau sy'n edrych ar y llun, yn gweld rhywbeth am ein bychander a'n breuder ni, greaduriaid dynol, yng nghysgod cadernid ac ysblander parhaol y mynyddoedd hyn?

Eiliadau i'w trysori i bob Cristion yw'r rheiny y ceir ynddynt olwg newydd ar ryfeddod yr Efengyl a phrydferthwch ein Gwaredwr Iesu Grist. A diolch am hynny, y mae'r Duw Mawr yn rhoi i ni o bryd i'w gilydd eiliadau o'r fath. Gall y newyddion da am Iesu Grist fod mor gyfarwydd a'r mynyddoedd, ond ambell waith y mae Duw'n dangos i ni mor anhygoel yw ei gariad tuag atom, ac mor syfrdanol oedd yr hyn wnaeth Iesu trosom ar Galfaria. Daw'r eiliadau hyn weithiau wrth i ni ddarllen a myfyrio dros eiriau'r Beibl; dro arall wrth i ni weddio a dechrau diolch am y Gwaredwr; dro arall wrth sgwrsio ag eraill am gariad Duw. Ond sut bynnag y dânt, gweddiwn am gael gweld yn fwy aml ac yn fwy eglur fawredd a golud Efengyl gras a thrugaredd ein Duw.

Rhan o ryfeddod yr Efengyl yw ei bod yn sibrwd wrth greadur di-nod a di-werth fel fi fod y Duw a greodd y mynyddoedd yn malio amdana. Mae'n dweud wrth greadur bach Subbuteaidd, eiddil fod Iesu Grist wedi fy ngharu ddigon i roi ei fywyd trosod, er mwyn i mi gael byw. A diolch am hynny, does dim rhaid sefyll yng nghanol llyn i syllu ar y cariad hwnnw.

JOHN PRITCHARD



Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108




Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

Pigion Byd Natur

**Rheidrwydd Arnoch i Wenu rhyw
Gymaint**



Difyrrwch yr hanesion sy'n bodoli ym myd pysgod a gaiff rywffaint o'm sylw'r mis hwn! A glywsoch chwi am yr arferiad ynghylch clymu clychau wrth gynffonau eogiaid a slywod er mwyn cael gwybod eu hunion leoliadau yn y dyfroedd? Os coeliwch chwi honna yna mi goeliwch mai ffurf sgwâr sydd i'r lleuad, ac mai llefrith ydi dŵr pob afon!

Mi glywsoch chwi'r sôn dicini am flew pysgod, ond tra roedd fy nghymar Linda a minnau ar daith ac yn mwynhau ein paneidiau coffi a bara cras hefo tama'd o farmlêd mewn ciaffi-stryd-gefn yn Whitby, gogledd Lloegr, beth a welsom ni wedi'i osod mewn ffrâm wydr ar y mur ond brithyll blewog wedi'i stwffio!

Mi ddaeth rhen Linda o hyd i'r chamra a thynnu i lun! Diolch iddi! Be wnawn i hebddi, dwedwch?

Ross C. Jobe, tacsidermydd ran ei alwedigaeth, brodor o Sault Ste, Marie, Ontario, a fu'n bennaf gyfrifol am stwffio rhen sgodyn. Brithyll blewog ydoedd, a ddaliwyd heb fod ymhell o Gros Cap, Llyn Superior. Eglurir oddi tan y ffrâm fod dŵr y llyn mor oer ar adegau neilltuol yn y flwyddyn fel bod yr holl bysgod sydd yno wedi dyfod i ddygymod a'r ffasiwn oerni trwy dyfu ffwr trwchus, a hwnnw'n un gwyn ei liw, ran fynyca.

Y mae na raff, os mynnwch lein ychwanegol i'r hanesyn, sef teithiwr dewr iawn yn cyrraedd Llyn y Gloch Iâ heb fod ymhell o'r Pysgodyingwyn, ym Montana. Mi roedd hi'n rhewi'n glep a'r teithiwr ers oriau heb ga'l cythgam o ddim byd i'w f'yta. Doedd dim byd amdani ond sgota, ond ar bob cynnig o'i eiddo malurid yn racs gyrbibion y bachyn unwaith y cyffyrddai'r dŵr oerllyd. Aed ati i gynhesu'r bachyn, ac ar hyn dyma lanio pysgodyn a hwnnw'n ffrwydro gan wahanu'r ffwr oddi wrth y cro'n. hawdd wedyn ydoedd... ia! dyna chwi, danfon y ffwr i gael ei drin a b'ytar cig drwy ei storio mewn rhewgell.

Honnir bod nifer enfawr o bysgod blewog yn bodoli yng Nghanada, Colorado, Montana ac Wyoming. Dywedir hefyd, a hynny'n gwbl ddi-flewyn ar dafod, bod brithyll blewog gynt yn ddi-ffwr, ond bod pedwar llond jwg o donic adfer gwalltiau, h.y. ar gyfar dynion sy'n mynd yn foel (druan ohonof!) wedi ei ollwng i'r afon Arkansas yn 1870au'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac i hynny ga'l effaith andwyol ar y brithyll, drwy iddynt lyncu dŵr a thonic tyfu gwalltiau ynddo, ac o'r amser hwnnw hyd heddiw tyfent ffwr ar eu crwyn!

Beth ydyw bwyd brithyll blewog? Ie, dyna chwi, pryfed-rhew!

Ni ellir dal y fath bysgodyn â hwn ym mis Mehefin. Pam tybed? Ydi! Ydi! y mae'r ateb yn un tra syml. Dyma fis caru'r pysgod blewog!

Ydach chi'n gwenu bellach? Da iawn chwi! Dan eich bendith, hyd y tro nesa...

Dafydd Guto

TUDALEN YR

IFANC

*Ffika.... o Sweden i
Gwm y Glo ... a thu hwnt*



1. Enw, oed a dy gefndir:

Megan Lloyd ydw i, dwi'n ferch 24 oed, yn byw yng Nghwm y Glo a fi yw perchennog Ffika. Tyfais i fyny ar fferm fach ym Mhontrug ac astudiais yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Friars.

2. Pryd a pham wnes di benderfynnu dechrau busnes?

Yn dilyn fy lefelau A yn 2013, penderfynais adael Cymru fach i weld y byd, roedd yr ysfa yma yn a'i ers taith i Nepal gyda fy nhad a fy nhaid yn 2008. Gwariais y flwyddyn gyntaf yn Awstralia, ymysg y teithio yno, cefais swydd mewn bwyty arbennig yn Melbourne o'r enw Arylia. Yno, dysgais am goffi, a dwi heb edrych yn ôl ers hynny. Dyma oedd cychwyn fy angerdd am y diwydiant yma. Dysgais gan rhai o oreuon y wlad wrth weithio yng nghyd a chogyddion anhygoel o Sri Lanka ag arbenigwr coctels o Sbaen. Roedd eu brwdfrydedd nhw yn fy ysbrydoli, ac yna ganwyd fy mreuddwyd o redeg busnes bach fy hun.

Parheais i deithio ogwmpas y byd tan wanwyn 2015. Yn dilyn Gaeaf o ddysgu plant i sgio yn y Swistir, cyrhaeddais yn ôl i Gymru hefo breuddwyd mor enfawr oedd rhaid i mi gychwyn. Penderfynais sefydlu Ffika, gan obeithio buasai gweithio mewn digwyddiadau ar draws Cymru drwy'r haf, yn galluogi mi i deithio yn ystod y gaeafau. Y gorau o'r ddau fyd.

3. Pam yr enw Ffika?

Mae 'Fika' yn draddodiad o Sweden. Mae'n golygu cymryd amser yn y dydd i rannu coffi a rhywbeth i'w fwyta gyda ffrindiau. Yno, mae o'n fwy na rhan o'i ddiwylliant nhw, mae o'n gysyniad, yn agwedd, yn ffordd o feddwl. Disgynnais mewn cariad hefo hyn, mae o'n union beth ydym ni yn trio annog, drwy addysgu'r cyhoedd am goffi a bwyd da. Penderfynais Gymreigio'r gair hefo 'Ff' ac o fan hyn ddoth 'Ffika'.

4. Uchafbwynt Ffika hyd yma? Beth wyt ti'n fwynhau fwyaf am Ffika?

Mae hwn yn un anodd i mi, mae yna ormod o uchafbwyntiau wedi bod i ddewis un. Dwi'n caru'r gwaith yma, ac mae gymaint o gariad yn mynd i mewn i bob peth yn y fan, rwyf wir yn teimlo fod y cwsmeriaid yn cael teimlad am hyn hefyd. Mae rhywbeth anhygoel yn digwydd ym mhob digwyddiad, bob penwythnos, drwy'r haf. Mae'r pleser o gael teithio o le i le yn rhannu fy mreuddwyd gyda phobl ein gwlad yn uchafbwynt i mi bob dydd. Rwyf hefyd yn credu fod y busnes dal i dyfu o nerth i nerth, felly gobeithiaf fod ein wir uchafbwyntiau dal i ddod. Fyddwn ni yn yr Eisteddfod eleni am y tro cyntaf ac mae o'n cael ei gynnal yn Llanrwst, lle fues i'n byw tan fis Chwefror eleni, felly bydd hwnna siŵr o fod yn un o uchafbwyntiau eleni.

Y peth ydw i'n mwynhau mwyaf am Ffika yw gweld y pleser ar wynebau pobl ar ôl cymryd y sip cyntaf o goffi, neu'r brathiad

cyntaf o fwyd. Mae rhywbeth yn tanio yn fy nghalon pan welai ffrindiau yn mwynhau cacen a rhannu sgwrs. Mae'r pleser o weld rhywun yn mwynhau rhywbeth dwi'n greu yn deimlad boddhaol dros ben ac mae hyn yn anghymwys. Mae o'n anrhydedd i mi allu rhannu rhywbeth fel hyn gyda'r wlad.

5. Ydy aros yn lleol a cefnogi digwyddiadau lleol yn bwysig i chdi?

Ydi. Mae digwyddiadau lleol wedi gwneud i fyny rhan fwyaf o galendr Ffika ers y cychwyn. Rydym yn gweithio yng nghyd a Chamu i'r Copa yn llawer o'i rasys nhw, Gŵyl fwyd Caernarfon, Gŵyl fwyd Biwmares, Marathon Eryri, yn ogystal â digwyddiadau preifat a digwyddiadau cyngor Gwynedd, Conwy a Môn. Mae'n braf gallu cefnogi digwyddiadau lleol, ag yn braf hefyd fod nhw eisiau cefnogi ni. Mae cyd weithio a busnesau eraill lleol, mawr a bach, yn hwyl ag yn ysbrydoliaeth. Mae yna gymaint yn mynd ymlaen yma, mewn ardal fach mor brydferth, fuasai'n biti peidio bod yn rhan o hyn.

6. Wyt ti'n meddwl bod gallu siarad Cymraeg yn helpu chdi yn y busnes?

Nid yw'n gwestiwn os mae Cymraeg yn helpu mi gyda'r busnes, Cymraeg yw'r busnes. Buasai dim Cymraeg yn rhwystri i unrhyw un yng Nghymru. Yn ogystal a hyn, heb ein mam iaith, ni fyswn yn cael hanner y sgysiau diddorol gyda trigolion lleol o bob ardal. Mae'r Gymraeg yn galluogi mi i weithio yng nghyd a phawb, o'r cynghorau lleol i'r cyhoedd. Ein iaith yw ein hunaniaeth.

7. Unrhyw gyngor i bobl ifanc sydd yn meddwl dechrau busnes?

Byddwch yn barod i weithio'n galed. Peidiwch byth a gollwng gafael yn eich breuddwyd, hyd yn oed os na dim ond chi sy'n ei gweld hi. Yn bwysicaf, peidiwch a bod ofn. Yn amlwg, mi fydd na bryderon, ond peidiwch a gadael l'r rheini eich atal rhag trio. Mae'n rhaid gweithio, addasu a thyfu drwy'r amser i redeg busnes dy hun, ond mae o'n gymaint o hwyl, a gymaint o fraint.

8. Be sy nesa i ffika?

Ar yr 2il o fis Mehefin fyddwn ni yn Niwbwrch lawr ar y traeth am ddiwrnod, yn dilyn hyn fyddwn ni'n Betws Y Coed ar yr 8fed. Yn hwyrach yn yr haf cadwch lygaid allan am ein carafan yn Sesiwn Fawr Dolgellau ac yn yr Eisteddfod. Gallwch chi ddilyn ein siwrne ar Facebook ac Instagram gyda @Ffikavan. Welwn ni chi yna!

Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna?

Mae Theatr Genedlaethol Cymru ar fin mynd ar daith gyda darlenniadau o waith newydd gan y don nesaf o ddramodwyr Cymraeg. Cafodd 8 sgwennwr eu dewis i fod yn rhan o gynllun Grŵp Dramodwyr Newydd y cwmni – cyfres o weithdai a sesiynau dros gyfnod o 10 mis sydd wedi galluogi i ddatblygu a meithrin eu crefft fel dramodwyr.

Mae Un Tro gan Sian Northey, a Teimlo gan Elin Gwyn yn ddwy ddrama newydd a fydd yn cael eu perfformio yng nghanolfan Pontio ym Mangor a Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug ar ddiwedd y mis. Felly dyma ni'n mynd ati i holi'r ddwy am y profiad o fod yn rhan o Grŵp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru:

1. Beth wnaeth apelio atat i ymgeisio ar gyfer cynllun Grŵp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru?

Elin Gwyn: Dwi wastad yn cadw golwg am gyfleoedd i sgwennu. Beth oedd yn apelio fwyaf am y grŵp yma oedd y cyfle i gael gweithdai drama gan ddramodwyr, a chael datblygu a thrafod fy ngwaith gyda chwmni theatr proffesiynol.

Sian Northey: Y cyfle i gael cymorth a chefnogaeth wrth fentro i faes diethr. Rwy'n edmygu dramodwyr yn fawr, ond roedd y chydig stwna roeddwn i wedi'i neud yn profi i mi nad oeddwn i'n gallu sgwennu drama mewn ffordd mor reddfol ag yr ydw i'n gallu sgwennu ffuglen neu farddoniaeth.

2. Fel rhan o'r cynllun, rwyf wedi bod yn mynychu digwyddiadau theatrig a pherfformiadau o ddramâu – pa un sydd wedi creu'r argraff fwyaf arnat?

EG: Anweledig gan Aled Jones Williams. Fe ges i fy nghyffwrdd gan y ffordd roedd y ddrama'n trafod gwellhad a'r ffordd roedd yn rhaid i'r cymeriad newid er mwyn goroesi.

SN: Theatr plant ydi'r un sydd wedi bod yn agoriad llygad. Beryg mod i'n diflasu pobl yn sôn am Yana and the Yeti, sioe bypedau gan Pickled Image.

3. Ble wnest ti hyfforddi / pryd ddechreuast ti sgwennu?

EG: Dwi wastad wedi sgwennu ac wedi cael fy annog i sgwennu ers yn blentyn. Mi wnes i astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Caerdydd a doethuriaeth yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Dwi'n ffodus iawn i gael swydd efo Cwmni Da sy'n galluogi i mi sgwennu'n greadigol.

SN: Mi oeddwn i'n sgwennu'n blentyn, yna rhoi'r gorau iddi hi pan es i astudio gwyddoniaeth ar gyfer lefel A, peidio sgwennu o gwbl am rhyw bymtheg mlynedd ac yna ail ddechrau. Erbyn i mi ddechrau fy noethuriaeth mewn ysgrifennu creadigol mi oeddwn i, trwy lwc fwy na dim, wedi sefydlu fy hun fel sgwennwr a chyfieithydd llawrydd. Ac mi wnes i gwblhau'r ddoethuriaeth llynedd yn fy mhumdegau hwyr.

4. Allan o'r dramâu rwyf ti wedi eu darllen yn ddiweddar, pa un sydd wedi creu'r argraff ddyfnaf arnat?

EG: Dwi'n mwynhau darllen dramâu, ac mae'r cwrs yma wedi bod yn esgus da i mi brynu cyhoeddiadau o ddramâu gwnes i fethu eu gweld yn y theatr. Dwi wedi mwynhau Yerma gan Simon Stone a Lungs gan Duncan Macmillan yn enwedig.

SN: Iesu! gan Aled Jones Williams mwya tebyg gan na wnes i ei gweld hi pan gafodd ei llwyfannu. Ac yn fwy cyffredinol mae darllen dramâu wedi gwneud i mi sylweddoli fod darllen drama a'i gweld hi ar lwyfan yn fy mhen yn sgil dw i angen ei ddatblygu os am sgwennu drama fy hun.

5. Bydd dy waith yn cael ei ddarllen yn gyhoeddus yn ystod Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna? – wyt ti'n edrych ymlaen at gael dy waith wedi'i ddarllen yn gyhoeddus ar lwyfan?

EG: Dwi'n edrych ymlaen mewn ffordd, ond yn teimlo'n nerfus iawn am y peth hefyd. Bydda i'n falch pan fydd o drosodd masiwr!

SN: Nag ydw! Yndw! Nag ydw! Mae'r rhan call ohona i'n wirioneddol edrych ymlaen i weld be all cyfarwyddwr ac actorion ei wneud ohoni; dw i ddim mor siŵr a ydw i'n edrych ymlaen at farn cynulleidf. Rhywbeth tebyg i gyhoeddi nofel wrth gwrs, ond gwaeth dw i'n ama gan fod pawb yn mynd i fod yna efo'i gilydd.

Gallwch weld darlenniadau o ddramâu newydd gan Sian Northey ac Elin Gwyn fel rhan o Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna? Mae'r tocynnau'n rhai Talwch faint a fynnwch, a gellir eu harchebu trwy'r canolfannau:

25 Mehefin 19.30, Pontio, Bangor (www.pontio.co.uk | 01248 38 28 28)

26 Mehefin 20.00, Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug (www.theatrclywd.com | 01352 701521)

Chwaraeon

CYNNAL DIDDORDEB

Dyna'n sicr bydd dymuniad dilynwy'r criced yma yn y Gogledd gyda cystadleuaeth Cwpan y Byd bellach wedi cychwyn. Mae sawl tim da yn ymgiprys am y tlws eleni a rhai yn rhoi Lloegr yn ffefrynau. Amser a ddengys. Un peth sy'n wir yw bod y ffurf fer o'r gêm unai 20 neu 50 pelawd y batiad wedi denu sawl gwylwr i'r gem. Mae'r IPL a'r Big Bash yn fyw o India ac Awstralia yn denu torfeydd gwyllo'r gemau ar deledu. A dyna'r broblem. Nifer y gwylwyr cadair esmwyth yn cynyddu'n sylweddol, nifer yn chwarae'r gêm yn disgyn yn rhyfeddol. Ac mae hyn yn wir yma yn y Gogledd erbyn hyn. Mae criced yn yr ysgolion wedi cael ei wasgu allan gan rygbi a phêl-droed – bechgyn a merched. Yr un modd athletau. Trist yw pasio rhai ysgolion uwchradd yma yng Nghwynedd ble gwelir y disgyblion hyd yn oed ym mis Mai yn cael 'gêm' bêl-droed yn ystod 'gwrs' Ymarfer Corff. Yr un modd y gwahanol glybiau yn dal ei gafael ar y bechgyn drwy fisoedd yr haf – er mwyn cystadlu mewn twrnameintiau sy'n dod ac arian i'r clybiau. A'r ymarfer cyn-dymor 'anghenrheidiol' wrth gwrs sy'n dechrau bron iawn cyn i'r clybiau proffesiynol ail ymgymyll.

Y mae'r dirywiad yn dechrau ymddangos yma yn y gogledd bellach. Eisioes gwelwyd timau – rhai yn yr Uwch Adran – yn chwarae gemau gyda 9/10 chwaraewr. Eisioes mae nifer o gemau wedi eu ildio am fod clwb methu cael digon o chwaraewyr yn y cynghreiriau is. Y rheol yw fod angen i bob clwb yn yr Uwch adran gael o leiaf tri thim ieuencid – fel arfer -11, -13 a -15. Ar hyn o bryd allan o'r 12 clwb rhyw 5 sy'n cyrraedd y nod yma. Yn sawl clwb fe gynhelir efallai dau dîm a hynny drwy chwarae bechgyn / merched mewn mwy nag un tim. Ni all sefyllfa o'r fath gario ymlaen yn hir. Braf fuasai gweld clwb Caernarfon yn sefydlu adran ieuencid. Byddai amser pan fyddai nifer o ieuencid Bro'r Eco yn chwarae i glybiau Fron Dinas, Bethesda a Bangor. Prin iawn erbyn hyn. Ie, sefyllfa drist ond dyna mae'n siwr yw dilyniant naturiol pan rydym yn troi yn wylwyr ac nid rhai'n cymryd rhan.


LLANAST LLWYR

Ie, dyna'r sefyllfa draw yn Bangor City erbyn hyn. Clwb Naples, Wembley, Cwpan Cymru sawl tro, Tommy Jones, Ffordd Farrar... Dirwyon ariannol a phwyntiau yn golygu efallai y byddwn yn croesawu nhw i Eithin Duon a Ffordd Padarn y tymor nesaf. A gyda sôn gref am sefydlu tîm lleol ym Mangor efallai y gwelir hwy hefyd yn gallu cael eu gosod yn yr un gynghrair. Pwy fuasai'n credu y byddem efallai yn cael gêm ddarbi rhwng dau dîm o Fangor mewn cynghrair yn haen 3 neu efallai 4 o byramid pêl-droed Cymru. Mor fawr y syrthiodd y cedyrn – a hynny o 'flerwch' eu hunain.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



HANNER CANRIF O GOFIO

Yn ddiweddar cefais y fraint o annerch rhyw 200 o bobl yn Ystafell y Llywydd yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd. Yr achlysur oedd dathliad 50 mlynedd ers sefydlu clwb pêl-droed y Cymric yng Nghaerdydd. Yn 1969 daeth rhai o weithwyr y cyfryngau at ei gilydd a chreu tîm i chwarae ym mhumed adran Cyngrhair Caerdydd a’r Cylch. Yn 1970 caed mewnlifiad o bob rhan o Gymru gan gynnwys 5 ohonom o’r Coleg Normal wedi ein apwyntio I ddysgu Cymraeg ail-iaith yn bennaf yn Sir Forgannwg. Fe chwaraeais i o dymhorau 1970-1973 cyn cael un tymor yn chwarae I Dreorci yng Nghynghrair Amatur De Cymru, wedi i mi symud o’r Barri i Ysgol Gymraeg Tonyrefail. O fewn dwy flynedd roedd digon o chwaraewyr i ffurfio ail dîm. Yn rhyfeddol yn ystod saith mlynedd cyntaf y clwb cafwyd dyrchafiad bum gwaith yn cario’r clwb o Adran 5 i’r Uwch Adran. Nid oedd cae sefydlog, ac ar y parciau fel Pontcanna a Threlai y chwaraewyd y gemau. Yn naturiol roedd pwrpas arall I ffurfio’r clwb, a hynny oedd hybu y Gymraeg. Yn naturiol, y Gymraeg oedd iaith ein chwarae a gallwch ddychmygu yr adwaith sarhaus gan sawl gwrthwynebydd, ac ambell i ddyfarnwr unllygeidiog. Hwn oedd cyfnod un ysgol Gymraeg a dwy uned yn y brifddinas. Mor wahanol y sefyllfa heddiw.

Roedd y clwb yn naturiol yn gyrchfan i fewnlifiad cynyddol y 70’au, â amlhaodd yn y degawdau i ddilyn. Yn eu plith nifer o fro’r Eco gan gynnwys y diweddar Irfon Williams o Ddinorwig, minnau, Dafydd Mona tra’n fyfyriwr, ac hyd heddiw Stuart Williams, Rob Gaffey a Huw ‘Cyw’ Jones. Yn wir, Stuart fu’r rheolwr am y 5 tymor diwethaf. Bydd Mr. Picton y Cymric yn ymddeol o’r swydd eleni, ond yn haeddianol derbyniodd y Tlws Coffa fel ‘aelod mwyaf gweithgar y clwb’ am y tymor.

Erbyn hyn mae gan y clwb faes sefydlog, a’r tîm cyntaf yn chwarae yn adran gyntaf Cyngrhair Amatur y De. Mae ail dîm, tîm merched, ac hefyd sawl tîm o adran y Crocs, hynny yw y timau ieuencid. Yn ei le hefyd mae carfan frwdfrydig o hyfforddwyr. Ar ben hyny mae tim hoci a thîm pêl-rwyd merched yn rhan o’r clwb – gyda’r tîm pêl-rwyd yn bencampwyr eu cyngrhair eleni. Braf oedd ail-fyw sawl gêm a digwyddiad a sylwi fel y datblygodd derwen Gymreig solat o fês gwantan 1969. Braint oedd darllen cywydd personol yn adlewyrchu hwyl a phwrpas y frwydr yn y blynyddoedd cynnar. Hir y parhaed y datblygiad yn y Gaerdydd fodern. Cofiwch chwi wŷr a merched ifanc o’r Fro sydd â diddordeb ym mhêl-droed, mae croeso i chwi gyda’r Cymric.

Yn nhacteg y chwedegau
â’r giat i’r Gymraeg ar gau,
hwy oedd modd i dreiddio mur,
eirlysiau o arloeswyr.....
Aed a’r iaith I fwd y dre’,
taro’r bêl hyd drybole,
bob sêf yn hybu safiad
cic wrth gic oedd mynd i’r gad;
ni’n cofio rheg sawl cyfarch,
hyll y poen, ond ennill parch.

RHEDEG MYNYDD

Ras Cader Idris

Llongyfarchiadau i Rob Samuel, Llanberis ar ddod yn ail yn y ras galed hon o Sgwar Dolgellau i’r copa ac yn ôl mewn amser o 1 awr 25 munud a 12 eiliad. Ar un cyfnod roedd yn edrych fel pe bai’n ennill y ras, gan gyrraedd y copa o flaen pawb arall mewn amser o 48 munud yn unig, ond yn anffodus, fe’i daliwyd gan un rhedwr arall ar y ffordd i lawr.

Ras y Moelwyn

Roedd y ras hon yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain ac yn rhan o Bencampwriaeth Cymru eleni, ac oherwydd hynny daeth rhedwyr gorau’r pedair gwlad i Flaenau Ffestiniog i gystadlu. Ond dau o Lanberis fu’n fuddugol, gyda Gareth Hughes yn ennill ras y dynion a Miranda Grant yn ennill ras y merched.

Rasys Nos Fawrth

Gyda’r gyfres yn tynnu tua’i therfyn, dim ond yn ambell un o’r adrannau oedran yn unig y mae’r enillwyr tebygol yn dechrau amlygu eu hunain, ond mae sawl adran yn parhau’n agored, a gallai pethau newid yn ystod yr ychydig rasys sydd ar ol. Manylion llawn am yr enillwyr yn y rhifyn nesaf.

PWY YW’R GWREIDDYN?

Mae’n hysbys ers sawl blwyddyn bellach fod gan C.P.D. Cymru swyddog sy’n cribinio y byd pêl-droed am wahanol chwaraewyr wedi eu geni tu allan i Gymru ond sy’n gymwys i gynhyrchioli Cymru oherwydd cysylltiad teuluol hyd at genhedlaeth taid a nain. Bellach mae’r swyddog hwnnw wedi darganfod Kieffer Moore, ymosodwr Barnsley. Wedi sgorio 16 gôl i’w glwb y tymor yma mae wedi ei gynnwys ynghyd â sawl chwaraewr ieuanc arall i deithio i ‘gamp’ ymarfer ym Mhortiwalgal. Yma bydd paratodau ar gyfer dwy gêm Cymru oddi cartref ym Mhencampwriaeth Ewrop yr wythnos nesaf – Croatia (8/6) a Hwngari (11/6). Ganwyd Kieffer yn Torquay, ond ymddengys fod ei wreiddiau Cymreig yn ardal Llanrug – ie, Llanrug sylwch nid Caernarfon neu Bangor. Y cysylltiad mae’n ymddangos yw ‘nain/ taid o Llanrug’. Felly chwi ddarllenwyr ffyddlon, byddwch yn gribinwyr busneslud a darganfod beth yw’r gwreiddiau yma ym Mro’r Eco sydd wedi rhoi y cyfle cenedlaethol i Kieffer.

Digwyddiadau Parc Padarn, Llanberis: Mehefin


7fed ac 8fed Sialens Elusennol yr Wyddfa yng ngofal Action Events Ltd. – ar faes parcio Dolbadarn.
22ain ‘Love Swim Run’ yn Y Glyn, ar Lyn Padarn, Gilfach Ddu a Choed Dinorwig.
22ain a’r 23ain Noson Cerdded yr Wyddfa wedi ei threfnu gan Elusen Marie Curie – maes parcio’r Gilfach Ddu.
29ain Ras Copa’r Wyddfa o Gae’r Ddol wedi ei threfnu gan Bwyllgor Ras yr Wyddfa.
29ain Gwyl Cychod y Ddraig yn Y Glyn ac ar Lyn Padarn wedi ei threfnu gan Hosbis Dewi Sant.

North Wales SIGNS

Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon



Ras Moel Eilio

Daeth dros gant o redwyr i Lanberis ddechrau Mai i gystadlu yn y ras hynod boblogaidd hon; a hynny o gofio fod cwmni masnachol yn cynnal ras fynydd ultra ar yr un diwrnod ac ar draws yr un cwrs. Tâl rhesymol am gystadlu yn Ras Moel Eilio, a chyfraniad o dros £700 tuag at Ofal Cancr Tenovus. Tâl afresymol hollol ar gyfer yr ultra, a'r arian i bocedi'r cwmni. Dyna'r gwahaniaeth rhwng ras gymunedol a ras fasnachol.

Stiwardiaid ar gopaon Eilio a Chynghorion; ym Mwlch y Groes a Maesgwm; ac yn cofnodi ac amseru ger yr Hostel Ieuenctid. Pob un yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol, ac yn mwynhau bod allan ar ddiwrnod heulog a chilir: amgylchiadau arbennig o dda ar gyfer rhedeg y ras.

A dychwelodd pawb yn ddiogel – er fod ambell un wedi dilyn baneri oren y ras ultra a cholli llwybr y ras draddodiadol, ond wedi mwynhau er hynny.

A hogyn lleol, Gareth Hughes, oedd yr enillydd, gan arwain o'r cychwyn cyntaf a neb yn ei herio.

Celts Caernarfon ym Mhencampwriaeth Cymru



Yn dilyn cael eu coroni'n bencampwyr cynghrair Cymdeithas Pêl-fasged Gogledd Cymru, cystadlodd tim dan 16 Celts Caernarfon yn Rowndiau Terfynol Cymru yn Aberystwyth ar ddydd Sul 5 Mai, lle bu'r ddau dîm gorau o Dde Cymru yn cystadlu yn erbyn y ddau dîm gorau o Ogledd Cymru. Yn nhim y Celts roedd chwech o Fro'r Eco sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail - Guto Whiteside Thomas, Iolo Jones, Morgan Jones, Gwion Williams, Connor Roberts a Leon Sinclair-Hughes. Daeth eu sialens cyntaf yn erbyn y Vale Vipers. Dechreuodd y Celts yn gryf gan orffen y chwarter un pwynt y tu ôl i'r Vale, 15 - 16. Cychwynodd y Vipers yr ail chwarter mewn hwyliau penderfynol gan ddiweddu'r hanner ar y blaen, Celts 27 - 33 Vipers. Gyda'r fuddugoliaeth o fewn eu gafael roedd y Vipers yn rhy brofiadol i adael iddo lithro, sgôr terfynol Celts 45 Vale 68.

Yn dilyn y golled hon, roedd y Celts wedyn yn cystadlu am y 3ydd safle yng Nghymru yn erbyn Bromborough Bulldogs. Cafwyd chwarter cyntaf ardderchog gan y Celts a ddaeth i ben 16 i 2 o blaid y tim o Gaernarfon gan osod y naws ar gyfer y gêm. Er gwaethaf adfywiad gan y Bulldogs yn yr ail chwarter, ni chafodd y Celts drafferth i ddal eu gafael ar y fuddugoliaeth a hawlio y trydydd safle drwy Gymru. Sgôr Terfynol Celts 59 - Bulldogs 45. Dewiswyd Iolo Jones fel Chwaraewr Mwyaf Allweddol (MVP) y Celts.

Ieuenctid lleol yn llwyddiannus ym myd hoci



Yn dilyn cyfres o dreialon yn Y Bala mae Elain Megan Lloyd Owen (Llanberis), Catrin Beech a Beth Whiteside Thomas (Llanrug); y dair yn ddisgyblion Blwyddyn 8 yn Ysgol Brynrefail, wedi cael eu dewis i gynrychioli tîm genethod dan 13 oed Gogledd Cymru yn y twrnament 'UK Lions' yn Nottingham 12-14 o Orffennaf. Maent yn aelodau o Glwb Hoci Caernarfon sy'n chwarae eu gemau ar gae Ysgol Brynrefail.

Mae Charlie Jackson (Llanberis) disgybl Blwyddyn 7 hefyd wedi ei ddewis i gynrychioli tîm bechgyn dan 13 oed Gogledd Cymru yn y twrnament 'UK Lions' yn Nottingham ar y 21-23 o Fehefin. Ein llongyfarchiadau i chwi, ac edrychwn ymlaen am hanes eich llwyddiannau yn Nottingham yn rhifyn nesaf yr "Eco".